YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MEHEFIN, 1872.

PAGANIAETH GARTREF.

YN awr pan mai cyrddau Mis Mai Llundain ar fin dechreu, yn y rhai y bydd llawer o *spowtan* y'nghylch danfon yr *Efengyl* i baganiaid, efallai na fyddai maes o le i ddyweyd gair dros baganiaid ein gwlad ein hunain. Bydd Exeter Hall mewn bri mawr y mis hwn, oblegid nid anhysbys yw i rai o'n darllenwyr mai dyma'r lle y cyferfydd y pleidiau "iawn-ffyddiol" i'r dyben i gasglu at eu gwahanol genhadiaethau tramor.

Llawer yw'r Cymdeithasau yn y wlad hon at droi Inffideliaid, Iuddewon, Paganiaid, Pabyddion, ac ni wyddom ni faint yn rhagor, ac i'w cynal nid ychydig yw'r symau sydd yn ofynol ac a gyfrenir gan gyfoethogion, yn enwedig gan hen wragedd a merched gweddw, a feddant lawn gymmaint o arian ag o wybodaeth dduwinyddol. Mae y bwriad yn dda gan nad pa fodd y gwerir yr arian, oblegid gwyddus nad oes un gwaith yn rhy gysegredig i rai math o ddynion i geisio gwneud ceiniog onest. Nid ydym wedi llwyr anghofio y symau mawr a gasglwyd yn y wlad hon yn 1847 a'r flwyddyn ganlynol, i gynal bywydau tylodion Iwerddon pan gariwyd ymaith ffon eu cynhaliaeth gan haint y cloron. Gellid meddwl nad allai un gwaith fod yn fwy dyngarol, yn fwy cysegredig, na gweini tamaid o fara i gannoedd o'n cyd-ddynion oeddynt yn marw o newyn. Er hyny, dywedwyd y pryd hwnw, ac yr oedd lle i gredu fod y peth yn wir, na chafodd y trueiniaid tylawd yn llawer man werth swllt o bob punt a gasglwyd. Nid ydym yn tybied fod troi paganiaid yn waith mwy tosturiol na phorthi y newynog.

Gan nad beth am ddanfon yr *Efengyl* i Baganiaid, ai nid rhyfyg o'r mwyaf yw yn Nhrindodiaid Exeter Hall i ddanfon cenhadon at Iuddewon i'r dyben i'w darbwyllo i gredu y fath athrawiaeth anysgrythyrol a gwrthun â thrindod mewn undod? Syndod yw genym na ofynai y cenhadon a ddanfonir allan a thracts dan eu ceseilau, weithiau iddynt eu hunain p'un mwy o baganiaid yw y dynion hyn sydd wedi glynu wrth addoliad yr Unig Dduw a Thad pawb oll, a hyny yn wyneb pob math o erledigaeth a dioddefaint, neu y ni sy'n addoli tri duw yn un? Yn wir, byddai yn rhyfeddod o'r mwyaf—rhyfeddod mwy na saith rhyfeddod y byd—pe gellid troi, a hyny yn egwyddorol, addolwyr y gwir Dduw oddiwrth grefydd eu tadau, i addoli Trindod. Nid ydym yn amheu nad oes ambell Israeliad cyn hyn wedi proffesu troedigaeth mor wrthun, er mawr orfoledd y Gymdeithas, ond y mae yn amheus wedi'n p'un ai wedi ei *droi* y mae, neu wedi ei *brynu*. Wrth brynu y deallwn fod dyben tymhorol ganddo yn y golwg, oblegid cig a gwaed yw yntau, fel eraill o blant Adda. Gan nad beth am hyn—p'un ai ei brynu ai ei droi a wneir—costia yn lled ddrud, meddir, i'r Gymdeithas—braidd mwy na gwerth y nwydd. Os gwir y cyfrif ddarllenasom ryw bryd yn ol, costia pob Iuddew "dychweledig" ddim llai na phum' cant o bunnau. Gellid anerch y cyfryw un pan yn sefyll i fyny i adrodd hap ac anhap ei droedigaeth, "er gwerth y prynwyd di," ond nid yn ystyr yr Apostol.

Rhaid cael yr arian. Cofiwn, fel pe fyddai ddoe, weled, pan yn grwtyn ieuanc, yn hen lyfr merthyron mwglyd cymydog, ddarlun o offeiriad Pabaidd tew mawr yn dal coden uwch ben rhyw adyn truenus o *heretic* wedi ei glymu wrth yr ystanc yn barod i'r ffagl, ac yn dylifo allan o enau yr offeiriad rhwng dwy o linellau crwca, "ceir pob peth am yr arian." Cyn gwneud Iuddew dychweledig rhaid cael arian, a chyn darbwyllo pagan i ymwrthod â'i ddelwau, rhaid cael arian. "Ceir pob peth am yr arian." Ni saif dim o'u blaen ychwaith—na chloion dur na muriau pres. Mae o'r pwys mwyaf, gan hyny, hyd yn nod i seintiau Exeter Hall, fel pawb eraill, gael gafael ar yr arian. Ond mae yn waith anhawdd, oblegid nid yw mil blynyddoedd Dr. Cumming eto wedi dechreu. Cael yr arian yw y gorchwyl. Rhaid agor llinynon codenau. Rhaid twymo calonau. Mewn gair, rhaid cael y *steam* i fyny. Pwy sydd yn fwyaf tebyg o gyflawni y gorchwyl? Rhaid i'r Pwyllgor edrych maes am "y magnelau mawrion," yr hen *stagers* sy' fyny i'w gwaith, a'u clod trwy'r eglwysi. Rhaid hefyd cael dau neu dri o genhadon o *China* neu *Madagascar*, a goreu i gyd os gellir cael "brawd du" yn eu plith fel arwydd o fuddugoliaeth ar deyrnas y fagddu. Wrth gwrs, bydd *Noble Lord* yn y gadair, oblegid bydded dyn cyffredin mor addas ag y bo at y gwaith, nid yw yn *Lord*. Mae *Lord Shaftesbury*, fel un, yn ddefnyddiol iawn ar y pen hwn, ac y mae ganddo ystor o frawddegau addas i'r gwaith. Efe, pwy ddiwrnod, oedd cadeirydd y Wesleyaid yn un o'u cyfarfodydd blynyddol. Er mai eglwyswr yw, ni wnai neb y tro iddynt cystal â'i arglwyddiaeth. Fel arferol, yr oedd yn ffraeth—ffraeth iawn. Traethodd lawer o bethau boddus i'r gwrandawyr, a mawr oedd y bloeddio a stampio'r llawr. Y'mhlith llawer o bethau eraill sylwodd nad oedd efe yno i weniaethu

i'r genhadiaeth Wesleyaidd, ond yn unig i lon-gyfarch y corph ar ei llwyddiant rhyfeddol, yn ol y *report*, y'mhob man o'r byd, oblegid yn y gogledd a'r de, yn y dwyrain a'r gorllewin, yr oedd y cenhadon o ddifrif ar waith yn cludo bara digymysg, mewn llawn pwysau, i'r anwariaid tywyll. Os yw yn ddigymysg, meddwn ninau, mae yn wahanol iawn i'r bara sy' gartref. Ond digon tebyg na chytunent â ni ar y pen hwn, gan nad beth am bethau eraill. Yr oedd ei arglwyddiaeth, fel y gellid dysgwyl, yn dra llym yn erbyn Pabyddion ac Inffideliaid, gan feddwl yr Undodiaid a phob tylwyth na chredant yn nuwinyddiaeth ei anffaeledigrwydd o Shaftesbury. Yn wir, nis gallwn lai weithiau na synu wrth yr hyfdra â pha un y *pratia* dynion o fath y *Lord* hwn ac eraill, a gyfenwant eu hunain "iawngred," am eu crefydd, ac y condemniant bawb eraill a wahaniaethant oddiwrthynt. Gellid meddwl wrth eu clywed yn siarad eu bod hwy wedi cael rhyw fraint ragorach nac eraill i wybod y gwirionedd. Siaradant am ddirgelion y nefoedd fel pe fyddent mor gyfarwydd yno ag yn eu *drawing rooms* gartref. Os credwch hwynt, mae eu *shibbolaethau* wedi dod i lawr yn grynswdd o'r nefoedd ac mor bured â'r eira. Yn wir, nid yw y Pab mawr o Rhufain yn fwy anffaeledig na phabau bach "Iawnffyddiaeth."

Ond i ddychwelyd at ein testyn. Gan nad faint y dwndwr a'r berwi fydd yn Exeter Hall y'nghylch danfon yr Efengyl i blith paganiaid, mentrwn ddyweyd nad oes un man ar y globen ddaearol lle mae mwy o baganiaid, a thywyllach paganiaid, nag sydd yn ynys Brydain yn ol ei maint. O ran crefydd, mae yma filoedd, os nid miliwnau, na wyddant mo'r gwahaniaeth rhwng eu de a'u haswy. Mae yn eithaf gwir. Ni wyddant ddim am Dduw ond fel enw i addurno eu rhegfeydd. Enwer un wlad baganaidd, os gellir, lle mae cymmaint o feddw-dod, godineb, gwraig-andwyaeth, lladrad, *forgery*, mwrdd-dra, ag sydd yn awr yn y wlad hon. Ni all neb enwi un. Mae trigolion tywyll y Fiji yn foesol mewn cydmariaeth i filoedd yn yr ynys "oleu hon." Cerddwch i unrhyw dref a fynoch—ac y mae trefydd Cymru yn awr yn lawn cynddrwg â threfydd Lloegr—mae yn boenus clywed iaith anllad ac annuwiol y plant, a pheth feddyliwn am eu rhieni gartref? Dywedwn nad oes unrhyw dalaith yn Africa a mwy o eisiau ei Christ'nogeiddio na'n gwlad ni ein hunain, a phe celem y cyfleusdra dywedem felly yn eglur wrth wyr duwiol Exeter Hall. Yr hen ddywediad yw fod elusen yn dechreu gyntaf gartref. Ymddengys i ni fod rhyw beth yn annyngarol a phariseaidd yn nanfon goleuni i'r "brawd du" yn Africa, cyn yn gyntaf gwneud y gymwynas â'n brawd gwyn gartref.

"Beth," meddai rhyw un, "onid ydys yn gwneuthur y ddau?" Yn sicr, mae swm aruthr yn cael ei thalu yn flynyddol gan y wlad i offeiriaid y Stâd Eglwys am foesoli a dysgu crefydd i'r werin—dim llai nag ugain miliwn o bunnau! Mae yn wir hefyd fod eglwysi a thaicyrddau yn britho'r wlad o ben i'w gilydd, ac i fod miloedd ar filoedd o bregethau yn cael eu traddodi yma yn ystod y flwyddyn. Ond gan nad beth am swm yr arian sy'n cael eu gwario, y pregethau a draddodir, a'r cyfleusderau crefyddol a feddir, gan nad b'le mae'r ffaeledd, mae tywyllwch paganiaeth yn gorchuddio y werin.

Nid ydym yn amheu nad oes dynion da a duwiol, a'u calonau yn y

gwaith, y'mhlith offeiriaid y Stâd Eglwys. Addefwn hyn gyda phleser, ond eithriadau ydynt. Ymddengys i ni fod cyfoeth a mawredd yr eglwys hon yn bydoleiddio ei gweinidogion. Y peth pwysicaf yn eu golwg yw gwerth y *living*. "Faint o werth yw hi," ydyw y peth cyntaf a ofynir, ac nid faint sydd yno o gyfleusdra i sobri meddwon ac i wareiddio annuwiolion. Pan fyddo *living* yn cael ei *hadfertiso*—gwaith gwaradwyddus yw hwnw—beth ddywedir fynychaf yw y manteision mwyaf deniadol y'nglyn â hi? Cymydogaeth dda i bysgotta a hela, *respectable society*, ychydig o drigolion ac, wrth gwrs, o waith plwyfol, a phum' cant o bunnau yn y flwyddyn. Gwir yw fod peth diwygiad wedi cymeryd lle yn ddiweddar; ond yr ysbryd sy'n cyffroi yw sectariaeth. Gwela ei hoffeiriaid fod eu heglwys mewn perygl. Rhaid gan hyny amddiffyn ei chyssylltiad â'r Stâd, a thrwy hyny ei thymorolion—ffynonell y bara a'r gorwychedd. Mae y *Ritualists* gydâ'r mwyaf difrifol yn eu plith yn ddiamheu; ond beth maent yn wneuthur? A ydynt yn treulio eu hamser i ddysgu dynion mewn egwyddorion crefydd a rhinwedd? A ydynt yn dyfeisio pob moddion a allont i ddyrchafu sefyllfa y tylawd, i ymladd yn erbyn meddwdod ac arferion annuwiol? Dim o'r fath beth. Ymrafaelio mae'r dynion hyn y'nghylch sothach gwael gwisgoedd a defodau eglwysig. Mewn gair, rhoddant, bawb o honynt, seirph i'r plant sy'n galw am fara. Y canlyniad yw mae crefydd wedi myned yn wawd, a'r pwlpid a'r weinidogaeth Grist'nogol yn ddirym. Nid oes eisiau myned i lawr y'mhell o dan wyneb cymdeithas i ganfod mor helaeth mae'r ysbryd anghrefyddol yn y gwaelod yn llygru gwraidd ein poblogrwydd.

Beiddiwn ddyweyd pe warid y symau a gesglir yn y wlad hon yn flynyddol i ddanfon yr Efengyl i Baganiaid, ac na wyddus yn iawn sut mae llawer o honynt yn cael eu hala, i wareiddio ein pobl ein hunain, gwnelent anghydmarol mwy o les. Nid ydym ni am beidio cristioneiddio y pagan, os gellir. Dyweyd ydym ni mai ein pobl ein hunain ddylai gael y sylw blaenaf. "Beth wnaech chwi â'r arian," medd rhyw un. Yn sicr ni roddem hwynt i offeiriaid na phregethwyr, fel corph. Ni adeiladem ragor o eglwysi na thai-cyrddau—o leiaf cyn llanw y rhai sydd wedi eu hadeiladu yn barod. Ni ranem hwynt ychwaith rhwng *tract*-ddosparthwyr na Beibl-ddarllenwyr. Mae y rhai hyn yn ddigon aml, dyn wyr, o ran y daioni a wnant. I beth yntau y cymhwysech chwi yr arian? Ni a'u cymhwysem yn y ffordd oreu ag a allem i wellhau cyflwr moesol a thymhorol y werin, i geisio gwneud iddynt ddeall a theimlo pwy mor well a theilwng o ddyn fel bod yn meddu ar reswm a deall a chyneddfau eneidiol, yw y pleserau a ddeilliant oddiwrth gwrteith ein natur foesol ac ysbrydol, na phleserau cnawdol ac anianol. Unwaith y gwneler dyn i deimlo y gwahaniaeth rhyngddynt, yr ydys ar y ffordd i'w ddiwygio. Ni a'u dysgem i fod yn fwy darbodus gydâ golwg ar eu henill a'u hamser, i deimlo dylanwad dedwyddwch cartrefol, ac y'mhob modd i ddeall y gwahaniaeth anfeidrol rhwng canlyniadau pechod a rhinwedd yn y bywyd hwn, ac hefyd yn yr hwn sydd i ddod. Nid esgeulusem ddysgu iddynt hefyd bob math o wybodaeth ag sy'n dal cyssllltiad â lles a dedwyddwch dyn yn y bywyd hwn, trwy ddarlithiau, pregethau, ac yn enwedig ymddyddan. Nid

esgeulusem ychwaith egwyddorion gwir grefydd—y bod o Dduw a'i briodoliaethau daionus, ein cyssylltiad ni ag ef, ein hymddibyniad arno, a'i ragluniaeth barhaus yn gofalu am danom—ein dyledswydd at ein cyd-ddynion fel aelodau cymdeithas ac atom ein hunain a'r sawl a ymddibynant arnom am eu cynhaliaeth a'u dedwyddwch. Sefydlem ysgolion i blant, ac nid yn unig hyny, ond moddion effeithiol, nid yn unig i sicrhau eu presenoldeb gwastadol yn yr ysgol, ond i weled eu bod yn cael eu dysgu mewn pob peth a'u haddasa i gyflawni dyledswyddau bywyd a bucheddu yn rhinweddol. Dyma fel y treuliem ni yr arian, a thyma y fath foddion arferem i ddyrchafu cyflwr moesol a chrefyddol y werin. Ond gwyddom na chelem annogaeth gan y bobl "iawngred" a fynychant Exeter Hall y mis hwn. Yn eu golwg hwy crefydd yw credu rhyw gryglwyth o athrawiaethau na all neb eu hamgyffred—athrawiaethau ag sydd wedi gwneud cannoedd yn anffyddwyr, a miloedd yn benrydd ac annuwiol.

Y BRAWDDEGAU OFFRYMIADOL A FABWYSIADIR YN Y TESTAMENT NEWYDD.

Ein dyben yn y traethawd canlynol fydd egluro rhai brawddegau y'nghylch marwolaeth Crist a fabwysiadir yn y Testament Newydd oddiwrth yr offrymau Iuddewig. Cyfyd yr anhawsdra cyffredin y'nghylch y pwnc hwn oddiwrth fod dysgedigion wedi penderfynu yn mlaen llaw i ddeall yn llyth'renol frawddegau a fwriadwyd gan yr ysgrifenwyr sanctaidd idd eu deall mewn ystyr ffigwraidd.

Ystyriwn fod eglurhad rhesymol a chywir o ddyben yr offrymau Iuddewig yn fater o bwys nid bychan y'nghyd a'u cymhwysiad at Grist. Dichon y byddant i raddau yn foddion, o leiaf mor bell ag y mae ein cyhoeddiad yn cael ei ddarllen, i wanhau, os nid i symud yn gyfangwbl, resymau y Deistiaid yn erbyn y Beibl, a sylfaenant ar y ffolineb o dybied fod Duw, fel dyn, yn cael ei dangnefeddu a'i foddio â rhoddion, ac hefyd i symud ymaith y farn boblogaidd y'nghylch iawn i gyfiawnder dwyfol a llid y Tad, yr hon a dybiwn sydd, nid yn unig yn athrawiaeth anysgrythyrol, ond yn ddiraddiol i'w gymeriad fel Bod cyfiawn a thrugarog.

Bydd yn angenrheidiol yn y lle cyntaf i roddi eglurhad byr o'r dybenion yn y golwg yn aberthu offrymau. Tybia rhai eu bod o osodiad dwyfol. Ond y prawf goreu a ddygir dros y dyb hon yw eu anallu i amgyffred pa fodd y gallasai creaduriaid rhesymol ddyfeisio dull mor wrthun o addoli, fel pe fyddai yn rhaid casglu fod pob peth ag sy'n rhy wrthun i fod o osodiad dynol wedi deilliaw o Dduw! Pa fodd bynag, gydâ golwg ar y cenhedloedd, tybiwn y gellir olrhain eu golygiadau trwy ystyried natur y bodau i'r rhai yr aberthent. Ysbrydion dynion meirw oedd eilunod y cenhedloedd. "Y tad yn gystuddiol trwy anamserol alar am ei fab, yr hwn a ddygwyd ymaith yn gynnar,

wedi gwneuthur iddo ei hun ddelw, yn awr a'i haddolodd megis yn dduw, yr hwn oedd y pryd hwnnw yn ddyn marw, ac a roddes i'r rhai oedd dano seremoniau ac aberthau. Yna y cadwyd yn lle cyfraith yr annuwiol ddefod, yr hon a gryfhasai mewn amser. . . . . A chwant y crefftwr i gael anrhydedd, a annogodd yr annysgedig i addoli fwyfwy. . . . . A'r werin, wedi eu denu trwy degwch y gwaith, a gyfrifent yna yn Dduw, yr hwn ychydig o'r blaen a berchid fel dyn." Doethineb xiv. 15—20. Tybient fod yr eneidiau a ddwyfolent yn cyfaneddu yn yr eilunod, yn bywydu cyrph anifeiliaid, neu yn preswylio yn un o'r bodau wybrenol—yr haul, y lleuad, y planedau, Arcturus, Orion, neu Pleiades; ac i fod y pleserau a fwynhaent pan yn y bywyd hwn yn eu boddio hefyd pan yn eu cyflwr newydd.

Dyma, yn ddigon tebyg, oedd dechreuad yr aberthau paganaidd, y rhai a ystyrid fel anrhegion neu wleddoedd i sicrhau cyfeillgarwch ac ewyllys da yr hwn a geisient ei anrhydeddu. Meddylid ei fod yn ymhyfrydu yn yr arogl peraidd a esgynai oddiwrth losgiad yr aberth, ac mai y duw oedd mewn gwirionedd yn ei ddifa ac nid y fflamiau. Pa fwyaf gwerthfawr yn eu golwg fyddai yr aberth, credent mai mwyaf sicr fyddent o enill cyfeillgarwch y duw. Yn wir, cymmaint oedd gwallgofrwydd rhai o'r paganiaid fel na omeddent roddi i'r duwiau a addolent wrthrychau tyneraf eu serch. Taflent eu meibion a'u merched yn aberth i'r tân sanctaidd.

Yn awr rhesymol yw meddwl fod yn rhaid i'r ysgrythyrau Iuddewig gael eu hysgrifenu mewn ymadroddion ag oedd yn ddealladwy i ddynion a gawsant eu mhagu yn y fath goeleddau direswm a gwrthun. Pe defnyddiasai yr ysgrifenwyr sanctaidd iaith mwy gwyddorol a phriodol am Dduw, buasent yn hollol annealladwy i genedl ag oedd o ran ei gwybodaeth dduwinyddol megys yn ei phlentynrwydd. Pe darluniai ysgolfeistr ddyledswyddau moesol i blant ei ysgol yn ymadroddion a drychfeddyliau Locke, Kant, neu Comte, byddai yr hyn a ddywedai wrthynt y'mhell tu hwnt i'w hamgyffred. Nid yw, gan hyny, yn rhyfedd pan fyddo ysgrifenwyr yr Hebreaid yn siarad am y gwir Dduw, eu bod yn defnyddio ymadroddion siengl ac o fewn cyrhaedd eu deall gwan. Am hyny, er fod yr ysgrifenwyr yn ymdrechu tynu sylw yr Israeliaid oddiwrth amryw-dduwiaeth at un gwrthrych addoliad—er eu bod yn ei ddesgrifio yn *fywiol* Dduw mewn cyferbyniad i'r *marwolion* ag oeddynt wedi cael eu dwyfoli neu eu gwneuthur yn dduwiau—er hyny oll desgrifiant ef yn gyffredin fel dyn, gan briodoli iddo bwerau, nwydau, ffaeleddau, a chymeriadau cyffredin y natur ddynol. Pe amgen, buasai eu hiaith yn anamgyffredadwy i'r genedl. Yr oedd yn rhaid siarad â hwynt fel â phlant. Mae yn wir y gwaharddant y bobl i wneuthur unrhyw eilun neu ddelw gerfiedig o'r Duw â'i dygodd allan o gaethiwed yr Aipht, ond er hyny mae yr holl ddefodau yn ymorphwys ar y drychfeddwl plentynaidd fod Jehovah yn trigo gyda dynion, ac mae y Babell oedd ei dy priodol. Nid yn unig yr oedd yn Dduw ond yn Frenin Israel, am hyny gorchymyn i'r bobl ddynesu ger ei fron â'r un fath seremoniau ag a arferid gan eilunaddolwyr pan yn dynesu eu harwyr duwioleiddedig, neu eu brenhinoedd. Gwaherddir hwy i ymddangos yn ei bresenoldeb yn waglaw—heb anrhegion, fel oedd yn arfer

gan ddynion wneuthur yn yr oesoedd boreuol pan yn myned o flaen eu goruchelion. Mae lle i gasglu oddiwrth eiriau Michah (vi. 6, 7,) fod aberthau yn cael eu hystyried fel anrhegion—"A pha beth y deuaf ger bron Jehovah, ac yr ymgrymmaf ger bron yr uchel Dduw? A ddeuaf fi ger ei fron ef â phoeth-offrymau ac â dyniewaid (lloi dwyflwydd)?"

Mae yn eglur oddiwrth ganol swn yr Ysgrythyrau fod y werinos Hebreaidd yn tybied am JEHOVAH ei fod yn *bwyta* o'r aberthau. Gorchymyna, gan hyny, i Moses wneuthur bwrdd iddo a'i arlwyo â dysglau, llwyau, a chawgiau, ac i ddodi arni fara-gosod, sef bara i aros yn wastadol ar y bwrdd ger ei fron (Exod. xx. 23—30). Mae yn achwyn, "Offrymu ydych ar fy allor fara halogedig; a chwi a ddywedwch, Ym mha beth yr halogwn di? Am i chwi ddyweyd Dirmygus yw bwrdd yr Arglwydd" (Mal. i. 7). Gwelwn oddiwrth hyn fod aberthau yn cael eu hoffrymu fel *ymborth* i'r Duwdod, a chyd â'r un bwriad y rhoddid anrhegion i deyrniaid daearol. Gelwir offrymau yr Arglwydd â wneid trwy dân yn *fara* Duw. (Lev. xxi. 6, 8, 17, 21, 22). "Sanctaidd fyddant (yr offeiriaid) i'w Duw, ac na halogant enw eu Duw." Mae hefyd yn ceryddu y genedl am ei hamgyffredion gwrthun a chnawdol am dano—"A fwytaf fi gig teirw, neu a yfaf fi waed bychod? Abertha foliant i Dduw" Salm l. 13, 14). Gwel hefyd Exod. xxix. 22—25.

Gelwir yr hedd-offrymau yn fynych *bwyd-aberth* tanllyd i'r Arglwydd Lef. iii. 2), ac y mae Paul yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid (ix. 13) yn datgan fod y sawl sydd yn gwasanaethu yr allor (y Lefiaid) yn *gyd*-gyfranogion o honi. Y tân arni oedd arwydd o bresenoldeb yr Arglwydd yn difa ei gyfran ef o'r aberth.

Darlunir hefyd y poeth-offrymau fel yn hyfryd, nid yn unig i flys Duw, ond hefyd i'w arogl. "Gwyliwch am offrymu i mi fy offrwm, a'm bara i'm hebyrth tanllyd, o arogl peraidd, yn ei dymmor" (Num. xxviii. 2. Gweler hefyd Exod. xxix. 18, 25. Lef. i. 9, 13, 17.

A ph'un a oedd aberthau Cain ac Abel yn deilliaw o ddiolchgarwch yr offrymwyr, neu yntau o ddwyfol apwyntiad, nid oes ynddynt un math o briodoldeb yn annibynol ar y dyb fod Duw yn ymbleseru yn ffrwythau y ddaear, a blaenffrwyth anifeiliaid glân.

Ond mae yn bryd i ni roddi heibio y tro hwn. Sylwn wrth ddiweddu nad yw yn ymddangos i ni fod aberthau yr addoliad Iuddewig o ddwyfol ordinhad, ond yn unig mor belled ag i fod Duw yn caniatau i'r genedl i'w addoli yn ei ffordd blentynaidd ei hunan, ac yn ol y meddwl plentynaidd oedd ganddi am dano, sef fod Duw, fel dyn, yn ymbleseru mewn danteithion hyfryd ac arogl peraidd—a hyny hyd nes y delai i ddeall yn well ac i goleddu meddyliau mwy goruchel am Dduw. Nis gallwn lai na chydmaru doethineb a chariad y Tad Nefol yn hyn i'r un fath briodoleddau mewn rhieni daearol yn cymmeradwyo serch a chariad eu plant bach yn eu gwaith yn anrhegu eu rhieni â rhoddion a feddyliant fydd yn boddio eu rhieni, bydded y rhoddion mor ddistadl bynag y b'ont, os byddant y goreu y'ngolwg y plant. Nid ar y rhoddion yr edrych y rhieni, ond ar serch y plant. Gŵyr y rhieni y bydd y serch hwn yn eu plant, o'i feithrin, yn cael ei ddangos cyn bo hir, pan y cyrhaeddant well deall, mewn ffordd mwy priodol a theilwng. Mae doethineb y

rhieni yn ymddangos yn eu gwaith yn meithrin y teimlad da hwn yn eu plant, ac ar yr un pryd yn eu harwain yn raddol i goleddu meddyliau mwy goruchel am eu rhieni.

Esboniad.

ADDOLI CRIST.

MATT. xv. 25. *A hi* (y wraig o Ganaan) *a ddaeth ac a'i haddolodd ef.*] Arferir y gair *addoli* gyda ni i ddynodi *addoliad crefyddol* neu *ddwyfol* yn unig, ond ni chyfyngir y gair Groeg cyferbyniol iddo yn yr Ysgrythyrau i'r ystyr hwn. Yno dynoda fynychaf y *parch* a ddangosir yn y dwyrain i frenhinoedd, prophwydi, barnwyr, athrawon, ac i bawb o uwch radd i'r addolwr. Mae y weithred yn gynwysedig yn ymgrymu wrth draed y gwr anrhydeddus, nes byddo y talcen yn cyffwrdd â'r llawr. Pan ddarllenwn yn y Beibl am ddynion yn cael eu *haddoli;* nid ydym i gasglu eu bod yn cael eu hystyried yn uwch na dynion, ac mai addoliad crefyddol neu ddwyfol sydd i ddeall, ond yn unig *parch* i'w hurddas. Tybia llawer o ddynion anllythrenog, pan gyfarfyddant ag adnod yn y Beibl, fel yr un uchod, yn yr hon y dywedir fod Crist yn cael ei addoli, ei fod am hyny yn Dduw. Camsynied y maent. Dylent ddeall fod y prawf hwn o'i dduwdod sy ganddynt yn rhy helaeth o lawer i'r pwrpas. Mae yn profi gormod, am hyny mae yn wan. Os yw *addoli* yn brawf o dduwdod Crist, am yr un rheswm yr oedd Daniel yn dduw (Dan. ii. 46), Elias yn dduw (1 Bren. xviii. 7), Dafydd yn dduw (1 Chron. xxix. 20), Joseph (Gen. xlii. 6), Chwegrwn Moses (Exod. xviii. 7), Solomon (Salm xlvii. 11), a Phedr (Actau x. 25). Meddwl ydym, er hyny, na chaniatai neb Trindodwr fod y dynion da hyn yn dduwiau, er fod y drychfeddwl sydd gan lawer am yr Anfeidrol Fod yn dra isel. Dichon y gofyna rhyw un, "Os yw y gair *addoli* yn cael ei arferyd mewn dau ystyr yn y Beibl, pa fodd mae i ni wybod pryd yr arferir ef i ddynodi *parch*, a phryd *addoliad dwyfol?*" Yr unig ffordd, debygem ni, i ddarllenwr anllythrenog i ddeall y gwahaniaeth yw dal manwl sylw p'un ai at Dduw, neu at ddyn, y cymhwysir y gair, neu i bwy mae yr addoliad yn cael ei roddi. Mae yr un cyngor hefyd yn bwrpasol i ddyn hyddysg yn yr iaith Roeg yn yr hon yr ysgrifenwyd y Testament Newydd gyntaf, oblegid mae y *gair (proskunein)* a gyfieithir *addoli*, weithiau yn cael ei gymhwyso at Dduw. Nid yw y gair yn brawf o dduwdod Crist, ac nid oes dim yn rhagor i ddeall wrth yr adnod uchod, ac amryw eraill o'i bath, nag i fod y wraig o Ganaan yn dangos ei pharch i'r Iesu fel prophwyd am yr hwn yr oedd ganddi feddwl goruchel. Syndod yw meddwl cymmaint o eiriau a arferir genym ni mewn ystyr wahanol i'r hwn yr arferir hwynt yn y Beibl, fel y cawn ddangos o bryd i bryd.

Nid yw dyfnderoedd trueni byth yn is na dyfnderoedd tosturi.

Gwlad rhyddid, gwlad papyrau newyddion. Dywedodd Jefferson y byddai yn well ganddo gael papyrau newyddion heb lywodraeth, na llywodraeth heb papyrau newyddion. Mae papyrau newyddion mewn gwlad fel *gas* yn heolydd tywyll tref.

NID SYBERW PAWB SEBONIR.

"Cân di benill mwyn i'th nain
Fe gân dy nain i tithau."

ONID Selyf a ddywedodd, "Canmoled arall dydi, ac nid dy enaid dy hun." Ie, onide? Fe ddywedodd Selyf lawer o bethau da yn ei ddydd, ac am hyny fe'i gelwid yn ddoeth. Ond fe ddywed rhai fod amser Selyf wedi myned heibio, fod doethineb un oes yn ffolineb oes arall. Mae llawer yn hynyna yn siwr, yn y blaen mae'r byd yn myned. Nid yw'r doethaf ddoeth bob amser chwaith, ac ni fynwn i amddiffyn pob peth a ddywedodd ac a wnaeth Selyf. Fe ddaeth dynion ar ol Selyf a dybient eu hunain yn gallach nag ef, ac y mae llawer o honynt i'w cael yn awr. Pobl y *look at me!* "Pobl nerthol" y gelwir rhyw rai gan Selyf; ond gall fod Selyf wedi gwyro. Na, dyma eiriau Selyf, "Nid ydynt bobl nerthol." "Pobl nerthol" ydyw y rhai hyn. Y mae y byd yn gorphwys ar eu hysgwyddau hwy. Mae pob dygwyddiad o bwys yn cylchdroi oddiamgylch iddynt hwy. Hwynthwy ydynt haul canolbwyntiol cyfundrefn prif weithrediadau'r oes. Ac y mae fod eu cyrn yn barhaus ddadgan hyny yn brawf digonol o hyny. *Look at me,* pe symudwn i fy ysgwyddau oddi dan y beichiau hwy a syrthient bob un. *Look at me,* a ydych yn tybied y gellid cario y gwaith yn y blaen hebof fi? Pa beth a ddaethai o'r cor canu hebof fi? Beth o'r Ysgol Sul hebof fi? Beth o'r gynulleidfa? *Look at me,* a ellid cynal Eisteddfod hebof fi? A ellid cario allan weithrediadau plwyfol hebof fi? Oni ddiflanai masnach hebof fi? Oni beidiai llongau hwylio a pheirianau weithio hebof fi? *Look at me,* a redai'r afon oriwaered? a wnai'r mor dreio a llanw? a wna'r sêr droi yn eu cylchoedd heb fy ngwasanaeth i? *Look at me* y fath swn wy'n gadw, y fath waith wy'n wneuthur, ebe'r ewyn ar wyneb yr afon. *Look at me* y fath ddwst wy'n godi, ebe'r gylionen ar *ecstri wheel y carriage. Look at me,* y fi dynodd dreth y tlawd i lawr ddwy geiniog y bunt pwy ddydd! Oni wneuthum i waith yn pasio *Bill* y Dadgyssylltiad! ebe R. Brain Dummy, M.P. Do, do, Dummy, ti wnest waith. I ti yr ydym yn ddyledus am holl waith y Senedd! Yr ydwyt wedi enwogi dy hun yn oes oesoedd, os dichon dy gorn dy hun wneuthur hyny.

Ai yn ddoeth ynte yn annoeth y dywedodd Selyf "Canmoled *arall* dydi"? Yn ffol, medd rhai; yn gall, medd eraill. Paham yr af i ganmol fy hun, pan y gallaf gael arall i wneuthur hyny? Mae hwn a hwn wedi cael tysteb, paham na chaech chwi un? Yr ydych yn ei theilyngu yn llawn cymmaint ag yntau. Wel, nid wy'n amheu dim; ond nid oes genyf fi neb i'm "bwrw i'r llyn." Oh—ho—ni chaiff hyny ddim bod yn ol. Felly gwnaed cytundeb. Cafodd John Thomas un i'w fwrw i'r llyn, ac—mâes o law, cafodd Thomas John yntau ei fwrw i'r llyn hefyd. Fel hyn yn awr mae geiriau Selyf yn cael eu cario allan fynychaf. Canmola di fi, canmolaf finau dithau. *Ah! Satan now is wiser than of yore.* Ie'n wir. Canmoled *arall* dydi. Ceisia rhai ddyweyd nad oes eisiau seboni ar rai fo'n syber. Ond ystori'r *Fox and Grapes* ydyw hono—y grawnwin yn surion! Neu ynte, dynion ydynt nad ydynt yn deall yr oes y maent yn byw ynddi.

Pa fodd y dysgwyliwn gael ein seboni oni wnawn ni ein hunain seboni eraill. Dyma fel y mae y byd yn gwneuthur, ac onid dyma fel y mae Selyf wedi cynghori? Canmoled *arall* dydi—ac i hyny, canmolwn *ninau* eraill. Os mynwn gael ein seboni, sebonwn ninnau. Pan ysgrifenir hanes ein hoes mewn amser i ddod, gosodir i lawr *saponaceousness* fel un o'i phrif nodweddion. Teilyngdod, meddai rhyw un â llais uchel. Rhyw *out of the way fellow* fydd hwnyna, ac ni chaiff fawr sylw. A phaham? Os am boblogrwydd yr ydys, gosoder teilyngdod o'r golwg. Nid yw Teilyngdod ddim yn *Dictionaries* sebonwyr yr oes; ond y mae Sebon yno, a digon o hono. Campus, ardderchog, gogoneddus, rhamantus, ysblenydd! "Ardd syberw, &c." Na sylwer ar ryw *nobodies* sydd yn is na bod islaw sylw. Rhyw rai sydd yn methu cael neb i'w bwrw i'r llyn. Cosa di fi, ac fe gosa innau dithau. Ceisiwn ddeall ysbryd ein hoes a chadwn ein hunain ym mlaen y gâd.

Canwn ni benill mwyn i'n nain
Ac fe gân ein nain i ninnau.

ANTI-CLAP-TRAP.

GOFYNIADAU AR Y BUMMED BENNOD O'R EPISTOL AT Y RHUFEINIAID.

GOBEITHIAF yn fawr yr argraphwch y dumewnol res o ofynion.

Dichon y cynhyrfa ddarllenwyr ieuainc yr YMOFYNYDD. Fe fydd, hefyd, yn dipyn o newydd-deb iddynt.

Y mae y Calfiniaid yn parhau i ddyweyd fod drygioni buchedd yn ganlyniad i amheuaeth o bynciau uniongred.

Mae personau da a drwg yn mhob enwad.

Ai tybied wneir fod gan opiniynau ar faterion annealladwy bwys yn y byd?

Onid oes ryw wahaniaeth rhwng da a drwg o angenrheidrwydd natur? A yw y gwahaniaeth rhwng da a drwg yn ymddibynu ar, hyd yn nod, ewyllys yr Anfeidrol? Mae'n wir fod Duw yn anghyfnewidiol dda. Mae'n wir mai'r digelwyddog Dduw ydyw. Ond nid am fod Duw yn sanctaidd y mae'r drwg yn ddrwg a'r da yn dda. Y mae rhai ffeithiau moesol a addefir o angenrheidrwydd gan bagan, pabydd, a *phrotestant.*

Addefa pawb yn ddieithriad fod tiriondeb, gonestrwydd, didwylledd, purdeb, geirwiredd, a llawer o rinweddau eraill yn dda o angenrheidrwydd, ac nid o osodiad dynol yn unig. Addefa pawb fod yn eglur tu hwnt i bob dadl na phosibilrwydd amheuaeth na safai cymdeithas ddim hebddynt.

Ond, medd y Calfiniad, pethau yr hen gyfansoddiad, *(things of the old Constitution,)* ydyw rhinweddau angenrheidiol o fod; y mae eisiau yn awr gyfiawnder cyfrifol—cyfiawnder Meichiau. Yr wyf finau yn dyweyd fod eisiau cyfiawnder o'r un natur a chyfiawnder Iesu. Ond eisiau i ba beth?

A yw yn wir, fel yr oedd Dr. Jebb yn traethu yn y *Convocation,* yr wythnos hon, fod anghytundeb ag ef yn esboniad y gredo Athanasiaidd

yn arwain i ammhuredd? Ac, hefyd, a yw yn wir fod rhinwedd dwyfol yn perthyn yn unig i'r rhai a gredont yn yr esboniad o'r bummed benod o'r Rhufeiniaid, a geir yn yr atebion uniongred i'r cwestiynau yn y res dumewnol? Onid oes gan amgylchiadau ffafriol, siampl, ysbryd yr oes, tôn cymdeithas, ymddyddanion drwg a da, llyfrau, teulu, corph iach a meddwl iach, ryw beth i wneyd yn ffurfiad egwyddorion a buchedd? Credu wyf fi fod llawer gan yr alwedigaeth i wneuthur efo cyfansoddi egwyddorion arosol a buchedd arferol. Darllenwch y drydedd-ar-hugain o Matthew, o'r braidd na feddyliech fod llestri duon y byd wedi pardduo gwisg feddyliol yr hwn "ni chaed twyll yn ei enau."

Ond, beth bynag am fy sylwadau uchod, yr wyf yn dychymygu y bydd pob darllenydd yr YMOFYNYDD yn cael ei ailenyn i ofyn iddo ei hun—Beth mewn difrif ydyw fy mherthynas â phethau angenrheidiol o fod, cyfrifoldeb personol, fy nghymydog, ac â Duw. B.

---

1. Pa un ai agwedd meddwl y credadyn (sancteiddhad), ai ynte ei berthynas a Duw (cyfiawnhad), a ddynodir yn y geiriau, "Heddwch tuag at Dduw?"

2. Pa un ai heddychu *dyn* a Duw, neu *Duw* a dyn oedd amcan blaenaf ac uniongyrchol marwolaeth Crist?

3. Yn mha le yn y Testament Newydd y dywedir fod yr lawn wedi symud ymaith y digofaint Dwyfol, neu ei fod yn heddychu Duw a dyn?

4. A yw pob math o boen neu ddyoddefiadau o angenrheidrwydd yn ganlyniad pechod? Neu a fyddai yn anghyson a dysgeidiaeth y Beibl i edrych arnynt fel un o'r llwybrau sydd gan Dduw i ddysgu a dysgyblu dynion yn annibynol ar bechod yn ol damcaniaeth Adam Farrar, ac eraill?

5. Dangoswch y cysylltiad sydd rhwng adnodau 6, 7, 8, a'r rhai blaenorol?

6. A yw yr arddodiad "dros" (*uper*) (adnod 6), yn cyflwyno y syniad o arall-osodiad (*substitution*)—Fod Crist wedi marw *yn lle* yr annuwiol, ai ynte yr unig syniad yw, ei fod wedi marw er eu *lles* heb benderfynu y modd?

7. Rhoddwch olygiadau Maurice, Jowett, Robertson, a Bushnell ar yr lawn, a'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt a'r eiddo y rhai a ystyrir yn uniawngred?

8. Esboniwch adnodau y 9fed a'r 10fed.

9. Beth yw ystyr a pherthynas yr "Am hyny megys" (adnod 15), a pha le mae yr aelod arall sydd yn cyfateb i'r "megys" hwn?

10. Beth a olygir wrth y geiriau, "yn gymmaiut a phechu o bawb," a phaham y mae y ferf *pechu* yn yr amser anmhenodol (*aorist*)?

11. Ai yr un dosbarth a olygir wrth "O Adda hyd Moses," ac, "Ie, arnynt hwy y rhai ni phechasant, &c." (adnod 14eg)?

12. Os nad at fabanod y mae y frawddeg, "Ie, arnynt hwy," yn cyfeirio, pa wahaniaeth oedd rhwng trigolion y cyfnod hwn a'r Cenedloedd pechadurus a ddesgrifir yn pen. i., y rhai y dywed yr Apostol eu bod yn haeddu marwolaeth?

13. Beth yw y gwahaniaeth rhwng y "camwedd" a'r dawn (adnod 15fed), ac at ba beth y cyfeiria *y* "mwy o lawer?"

14. Yn mha ystyr y "gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid" (adnod 16eg), ac y "gwneir llawer yn gyfiawn?"

15. Beth a olygwch pan ddywedir fod trosedd Adda yn cael ei gyfrif i'w hiliogaeth? a beth yn ol eich barn chwi yw *sail* y cyfrifiad?

16. Dangoswch resymoldeb yr athrawiaeth, a pha fodd y mae yn gyson a chymeriad Duw fel Bod Cyfiawn a Sanctaidd, ac a'r syniad o uniondeb sydd yn reddfol yn meddwl dyn?

17. Pa beth ydyw sail pechadur ger bron Duw?

18. Nodwch y gwahaniaeth rhwng Protestaniaid a Phabyddion yn yr ystyr a briodolant i'r gair cyfiawnhad.

19. Beth yw y gwahaniaeth rhwng cyfiawnhad a sancteiddhad? A phaham na cnwir sancteiddhad yn y gyfres o fendithion a gynwysir yn Rhuf. viii. 20?

20. Beth yw y gwahaniaeth rhwng y Lutheriaid a'r Calfiniaid yn eu barn gyda golwg ar y modd y mae cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i bechadur?

[Awdwr y gofyniadau uchod yw y Parch. O. Thomas, gweinidog Calfinaidd yn Liverpool. Bwriadai iddynt gael eu hateb gan aelodau yr Ysgolion Sabbothol yno. Carem ninau yn fawr dderbyn atebion iddynt, neu i rai o honynt, oddiwrth ddarlleuwyr yr YMOFYNYDD.—GOL.]

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YN NGHYMRU.

At y Golygydd.

Syr,

Mae'r fuwch sy genyf ym mron myned yn hesp o eisiau ogor. Gwyddoch yn dda, cyn y gall buwch gael digon o laeth i ddau lo, fod gofyn iddi gael llawer iawn o fwyd. Yn wir, y mae yn rhaid iddi wrth fwyd cyn y gall fagu un yn dda. A dywedyd y gwir, cynauaf lled brin wyf wedi gael er ys dwy flynedd, er nad wyf, trwy drugaredd a charedigrwydd cyfeillion yn ystod y blynyddoedd cyn hyny, ddim wedi gweled eisiau hyd yma. Os cymer gweinidogion yr enwad fy achos i fyny gydâ'u brwdfrydedd arferol, teimlaf yn ddiolchgar iawn iddynt; ac os gwnewch chwi, Mr. Golygydd, osod gair bach o gymeradwyaeth i'm appel, ar odre'r ddalen (rhwng cronfachau—yr ydych chwi yn arfer caru gwneuthur sylwadau o'r odre'r ddalen) mi a ddymunaf i chwi ran o bob bendith.

Nid oes mewn llaw yn bresenol ond tua £19 i gyd, a chan fod y costau dros £6 y cwarter, fe wel pawb na pheri hyny ddim yn hir. Yn awr, ynte, gyfeillion, dyma gyfleusdra i wneuthur cymwynas, o'r fath nad yw yn ymgynyg i chwi ond anfynych iawn. Mae'r achos yn dda, ni fu erioed ei well. Deued y tanysgrifiadau i mewn gan hyny yn gyflym gyflym yn ystod y misoedd nesaf yma, a minau a roddaf gyfrif am danynt cyn diwedd y flwyddyn, yn gystal ag am danysgrifiadau y ffyddloniaid hyny nad anghofiasant eu rhan yn yr achos yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf. Byddwch wych.

Mount Pleasant Garden, Mai 10, 1872. R. JENKIN JONES.

[Meddyliwn nad oes eisiau i Mr. Golygydd yngan gair o gymeradwyaeth ar odre y ddalen, fel mae yn debyg y cara wneuthur, ond y denfyn

cyfeillion y Gymdeithas ateb *sylweddol* i appel Mr. Jones, sef ogor i'r fuwch, a hyny yn ddioed. Trueni mawr yw newynu un anifail, yn enwedig anifail mor ddefnyddiol â buwch. Y gwir yw, mae rhai o gyfeillion y Gymdeithas wedi cael peth siomedigaeth na fuasai y cynyrch wedi troi allan yn fwy boddhaol. Wrth gwrs, buasai hyny yn dda gan bawb o honom, ond dygwydd amgylchiadau, ac nid yn anfynych, nas gall neb eu rhagweled. Nis gall dyn ond cynllunio; Duw ei hun sy'n trefnu. Gobeithio na phera y siomedigaeth i'r cyfeillion ddiffygio. Pan yr ydys yn hau hadau, nid yw'r hauwr yn dysgwyl i bob hedyn egino; ond nid yw o ran hyny yn peidio hau. Cwymp llawer o'r gwlaw ar dywod a chreigiau diffrwyth, ond nid yw'r cymylau am hyny yn peidio rhoddi gwlaw. I mewn, frodyr, eto â'r ogor i fuwch Mr. Jones. Na ddigalonwn yn gwneuthur daioni. Os oes rhai o'n darllenwyr nad ydynt yn gwybod, dywedwn mai Cymdeithas yw at gynorthwyo dynion ieuainc i fyned i'r Weinidogaeth Undodaidd yn Nghymru.—GOL.]

YSGOL SUL HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.

CYNHALIODD yr Ysgol uchod ei gwyl dê flynyddol dydd Iau, Mai 2, 1872. Mae clod yn ddyledus i Mr. Griffiths a'i gwmpeini am addurno y capel mor ddestlus ar yr achlysur gydâ blodau amryliw, a llysiau byth-wyrddion, nes yr oedd pawb o'r gwyddfodolion yn teimlo rhyw swyn gwefreiddiol yn treiddio trwy eu mynwesau wrth yr olwg arnynt. Ond yr hyn a dynai ein sylw fwyaf ydoedd y baneri, arwydd-eiriau, ac yn enwedigol yr arluniau a grogai hyd amryw ranau o'r capel:—megys Llygad holl weledol Rhagluniaeth; y ddau Feibl; y Groes; Cain ac Abel; Dychweliad y Mab afradlawn; Ruth a Naomi; y Groes, eto; y Samariad trugarog yn gweini ar yr hwn a syrthiasai yn mhlith y lladron; Joseph yn deongli breuddwydion; yr Arglwydd Iesu a'r wraig o Samaria ar lan y ffynon; Iesu yn gyru'r prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r Deml, &c., a phob un o'r rhai yma wedi ei hymylu mewn gwahanol lywiau, ac i bob arlun ei lywiau priodol ei hun, i ddynodi ei wahanol gymeriadau, yr hyn sydd i'w briodoli yn benaf i Miss A. Griffiths. Mewn gair, yr oedd yr addurniadau tu hwnt i ddim a welais erioed mewn ardderchogrwydd. A pha ryfedd fod y pethau yma, y'nghyd â gwenau siriol y boneddigesau hawddgar a weinyddent ar y byrddau yn creu rhyw fwynhad tu hwnt i ddysgrifiad yn mhawb a eisteddasant i lawr i gyfranogi o'r tê a'r bara brith. Yr oedd nifer y rhai a yfasant dê tua chwech cant, rhwng plant yr Ysgol Sul. Tê plant yr Ysgol yn rhad. Cymmaint a hyna am yr addurniadau ac ymborth y corph.

Yn yr hwyr, ar ol symud ymaith y byrddau, cafwyd gwledd ardderchog ac adeiladol yn myd y meddwl. Neillduwyd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, i'r gadair lywyddol. Ar ol iddo agor y cyfarfod mewn ychydig eiriau yn fyr, cryno, ac i bwrpas, dygwyd y cyfarfod yn mlaen yn rhyw beth tebyg i'r hyn a ganlyn:—Anerchiad barddonol gan B. Beynon; *Overture* gan Miss A. Griffiths; Adrodd, "O! na chaem hwyl," gan R. Howells; Canu, "Peraidd Lais Cerddoriaeth," gan barti; Adrodd, "Dull y Bardd yn caru," gan D. Evans; Canu, "*Marseillaise" (Solo)*, T. J. Jones; Adrodd, "Willie bach yn rhwygo'r Fegin

fawr," gan Lewis Llewellyn; Cân, gan Mr. John Howells, Aberaman; Adrodd, "*The Village Blacksmith*," gan Evan W. Griffiths; Cân a Chydgan, "Y Tylwyth Teg," gan Mr. Morgan Rowlands; Adrodd, "Y Swllt diweddaf," gan T. Rees; Canu, *Solo*, gan D. R. Williams; Adrodd, "Lle mae Ewyllys y mae gallu," gan D. Evans; Canu, "*See our Oars*," gan y cor; Adrodd, "Gwahoddiad i'r Ysgol Sul," gan Martha Jenkins; Canu, "*Father, come home*," gan Mary J. Thomas; Adrodd, "Sara Gwaralltyryn," gan C. Watkins, &c.; Canu, *Solo*, gan Mr. Richard Lewis; Adrodd, "Sian o'r Wlad a Susan o'r Siop," gan Misses Catherine Watkins a Gwenllian Llewellyn; Canu, "Saf dros y gwir"; Adrodd, "*Peter and the Poker*," gan Lewis Llewellyn; Ton ar yr *Harmonium*, gan Mr. H. Howells; Canu, "*Solo*," gan Mr. H. D. Williams; Adrodd, "Y drwg o fgaru'r ddiod," gan G. Thomas; Cân gan Mr. John Howell, Aberaman; Adrodd, "*The Cat*," gan Mary Jane Lewis; Canu, "*Gloria Chorus*," gan y Cor; Adrodd, "Tafodiaeth Cymru," gan D. Evans a'i gyfeillion; Canu, "*Sanctus*," gan y Cor; Adrodd, "Heddwch," gan Evan Jones; Canu, "Bryniau fy Ngwlad," gan Mr. Morgan Rowlands.

Rhoddwyd diolchgarwch gwresocaf y cyfarfod i'r parchus gadeirydd am lywyddu y cyfarfod mor dda, yn nghyd ag i bawb eraill a fu a llaw yn y gwasanaeth.

Terfynwyd y cyfarfod trwy ganu, "Ymgyrch gwyr Harlech."

Gwledd ardderchog yn mhob ystyr medd GLANHORFAB.

CREDO ST. ATHANASIUS.—P'un ai credo yr hen dad hwnnw yw ai peidio, mae wedi achosi llawer o swn yn ddiweddar—o leiaf yn y papyrau newyddion. Dychymyga yn dy feddwl, ddarllenydd, bedwar neu bum' cant o offeiriaid o bob gradd ac oedran—rhai braidd yn ddifarf, rhai canol oed, a llawer o henafgwyr penllwyd—oll wedi cael manteision dysgeidiaeth yn Caergrawnt, Rhydychain, a Llanbedr-pont-Steven o bosibl—dychymyga y dyrfa gyfrifol hon yn eistedd i lawr mewn ystafell eang i drafod materion crefyddol eu heglwys. Dyma beth a elwir tŷ isaf y *Convocation* arno. Dychymyga eto dy fod yn cael cipolwg megys drwy dwll y clo ar ystafell llai o faintioli, ac yn canfod oddeutu pymtheg neu ugain o henafgwyr sobr yr olwg arnynt, ac mewn gwisgoedd dyeithr—oll mewn dwfn gyngor. Dyma dŷ uchaf y *Convocation*. Esgobion ac archesgobion yw'r henafgwyr penllwyd wyt yn weled. Mae y ddau dŷ hwn wedi bod yn cwrdd yn ddiweddar. A pheth wyt yn feddwl oedd y pwnc ganddynt? Credo St. Athanasius, sef p'un a ydyw o hyn allan i gael ei chadw yn eu Llyfr Gweddi a'i peidio. A ddarllenaist ti y gredo ryfeddol hono erioed? Traetha y collir di yn ddiamheu, hyny yw, y cai dy daflu i'r poenau tragwyddol os "na addoli un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod—Digrëedig Dad, digrëedig Fab, digrëedig Ysbryd Glan—Tragwyddol Dad, Tragwyddol Fab, Tragwyddol Ysbryd Glan; eto nad ydynt dri Digrëedigion, ond un Digrëedig, ac nad ŷnt dri Hollalluogion, ond un Hollalluog—Fod y Mab o'r Tad yn unig, heb ei wneuthur na'i greu, eithr wedi ei *genhedlu*," ac felly yn y blaen. Dyma'r gymysgedd dduwinyddawl ryfeddaf a ddaeth o ymenydd dyn erioed, er hyny rhaid i ti ei chredu os na ddewisi fyned i'r lle poenus a enwyd. Yn awr, a ydyw yn gredadwy y gall dynion dysgedig,

fel y ddau dŷ uchod, feddu golygiadau mor blentynaidd, mor ammhriodol, mor fach, oeddem yn myned i ddyweyd, mor gableddus, am yr Anfeidrol Fod sy'n llenwi yr holl greadigaeth â'i bresenoldeb? Mae yn drist meddwl y gallant, ac y gallant dreulio diwrnodau i ddadleu cymhwysder y gredo i Grist'nogion. Pwy ryfedd fod yr Iuddewon yn amser Moses, bedair mil a hanner o flynyddau yn ol, yn coleddu meddyliau mor blentynaidd am Jehovah, â'i fod yn bwyta ac yn yfed fel dyn, pan y mae dysgedigion pennaf ein gwlad, yn y bedwarydd ganrif ar bymtheg o oed Crist, yn dal y gredo (a ddywedwn?) baganaidd hon fel eglurhad o'u tyb am fodolaeth y Tad Anfeidrol? Pan mae'r bugeiliaid mor dywyll, beth feddyliwn am y praidd? Penderfynwyd o'r diwedd mai gwell yw cadw y gredo yn llyfr eu gweddi, ac aeth rhai mor bell a'i galw yn amddiffynfa Crist'nogaeth! Druan â chrefydd Crist! Nid yw yn ddrwg genym, ar un olwg, iddynt ddod i'r penderfyniad hwn, ac efallai y dywedwn wrthyt, ddarllenydd, ein rheswm ryw bryd. Wrth ddiweddu nid anfuddiol fyddai sylwai fod Gibbon, awdwr *The Decline and Fall of the Roman Empire*, pen. 37, nodyn 114, yn sylwi ar gredo Athanasius fel hyn:—"Cydnabyddir yn gyffredin y tair ffaith ganlynol, sef, 1. Mai nid Athanasius yw awdwr y gredo a ddarllenir mor fynych yn ein heglwysi. 2. Nad ymddengys fod y gredo mewn bod gan' mlynedd wedi ei farwolaeth. 3. I'r gredo gael ei chyfansoddi gyntaf yn Lladin, ac o ganlyniad yn un o'r Taleithau Gorllewinol. Gennadius, Patriarch Caercastenyn, a synodd gymmaint, pan ddarllenodd y cyfansoddiad, fel y sylwodd yn onest ei fod yn credu mai gwaith dyn meddw ydoedd." Os oedd y Patriarch yn iawn yn ei dyb am dani, beth feddyliwn am offeiriaid yr Eglwys Sefydledig yn darllen bedair gwaith ar ddeg bob blwyddyn uwch ben pechaduriaid, gredo o waith dyn meddw, ac am aelodau cyfrifol y *Convocation* yn treulio diwrnodau i ddadleu y cymhwysder o gadw y fath gredo o fewn eu Llyfr Gweddi, a'r mwyrif yn dod i'r penderfyniad mai gwell ei chadw yn y blaen!

YR ADGYFODIAD.

Mr. Gol.—Yr ydych chwi yn wastad trwy gyfrwng yr YMOFYNYDD yn gwneud eich goreu i ddynoethi athrawiaethau disail a chyfeiliornus, a rhwydd hynt i chwi a'r YMOFYNYDD i barhau yn y gwaith da.

Ychydig ddyddiau yn ol, talodd cyfaill i mi ymweliad â Sir Aberteifi, a rhyw fodd neu gilydd dygwyddodd gyfarfod â rhai hen gyfeillion Undodaidd, ac wedi ychydig siarad, aeth yn ddadl y'nghylch adgyfodiad y meirw. Ni chredent hwy fod y fath beth ag adgyfodiad i fod, a rhyfeddent yn fawr "fod un dyn o berchen synwyr cyffredin yn gallu credu y fath beth disail ac anysgrythyrol." Yr oedd clywed hyn yn beth newydd iddo ef, fel ag y mae hefyd i'r ysgrifenydd. Onid yw yn beth gwarthus i feddwl fod dynion a gyfenwant eu hunain yn Undodiaid yn anghredu yr adgyfodiad—un o brif athrawiaethau y grefydd Grist'nogol?

Yn awr, Syr, tra fyddo dynion o'r golygiadau hyn, a alwant eu hunain Undodiaid Crist'nogol, mewn undeb â'n henwad, ni welwch chwi na neb arall gynnydd byth arno. Byddai yn fwy cysson ynddynt hwy, ac yn well i'r enwad Undodaidd, pe yr ymddidolent oddiwrthym ac y gosodent i fyny enwad ac addoliad, os oes eisiau addoliad arnynt, o eiddo eu hunain.

Rhestrir ni gan y lluaws, ac mae yn debyg nid heb achos, gydâ y fath anghredinwyr, sef gwadwyr adgyfodiad a gwadwyr gweithredoedd nerthol Crist. Ychydig ddyddiau yn ol, clywais offeiriad yn curo yn ddidrugaredd ar yr Undodiaid. Y'mhlith pethau eraill cyhuddai hwynt o wadu gwyrthiau

yr Arglwydd Iesu ac adgyfodiad y meirw. Chwi welweh, Syr, nad yw y Trindodiaid heb beth sail i'r cyhuddiadau a ddygant i'n herbyn.

CARWR CYSSONDEB.

[Nid ydym yn credu fod llawer y'mhlith Undodiaid Sir Aberteifi, nac un parth arall, yn anghredu mewn bywyd i ddod. Meddwl ydym, wrth gwrs, Undodiaid Crist'nogol, sef pawb a gredant yn egwyddorion sylfaenol Crist'nogaeth, y'mhlith pa rai y rhestrwn adgyfodiad Crist. Dichon mai adgyfodiad y corph a feddylient—gronynau dacarol ein cyfansoddiad. Os felly nid yw yn canlyn eu bod yn anghredu mewn bywyd i ddod. O'r tu arall, os meddwl oeddent fywyd i ddod ar bob ystyr, nid Undodiaid ŷnt, gan nad beth y cyfenwant eu hunain. Nid oes neb yn credu yn adgyfodiad Crist o feirw a bywyd ŷi ddod yn gryfach nag Undodiaid a elwir yn briodol felly, gan nad beth am y sawl gyfarfu eich cyfaill yn Sir Aberteifi.—GOL.]

GARDDWRIAETH Y BWTHYN.

(Parhad o tud. 70.)

Tyfa erfin mewn pob math o dir, gydag unrhyw fath o wrtaith ; ond y goreu yw tir tywodlyd ysgafn, a dywedir mai llwch esgyrn yw y gwrtaith goreu iddynt.

Ar ol trin a brasâu y tir, hauer yn weddol deneu, yn rhesau, troedfedd o bellder oddiwrth eu gilydd. Bai mawr y bwthynwr wrth hau erfin yw hau tua deg hedyn am bob un sydd eisiau.

Cyn gynted ag y delont i bedair dalen, teneuer, er rhoddi lle i'r gwreiddiau ymledu. Cadwer y chwyngaib ar waith yn eu plith, er difa y chwyn, a chadw y pridd yn ysgafn rhwng y gwreiddiau.

59. Rhuddugl (*Radish*). Y mae yr amrywiaeth o'r rhai hyn ar fin bod yn ddiderfyn ; ond gellir eu rhesu yn bedwar dosparth—sef, yr hirwreiddiog cochion, hirwreiddiog gwynion, y crwnwreiddiog cochion, a'r crwnwreiddiog gwynion. Dywed rhai mai y ddau fath oreu yw y rhai a eilw y Sais—"*Long Scarlet*," a "*White Turnip*." Ychydig iawn o drafferth a rydd y Rhuddugl i'r garddwr—dim ond rhoddi triniaeth gymhedrol dda i'r tir, a hau ychydig o honynt, yn ol maint ac anghen y teulu, o ddechreu Mawrth i ganol Medi.

Bydd genych felly *Radishes* at eu bwyta yn amrwd, neu eu berwi pryd y mynoch. Gocheler yma eto rhag hau yn rhy dew, onide cewch fwy o ddail a llai o wreiddiau nag a ddymunech. Gellir eu teneuo fel y delont i fyny. Gellwch godi had trwy adael rhai o'r cynnaraf yn y tir i hadu, a thynu y codau i mewn fel y byddont yn addfedu, Ni chydaddfeda yr oll ar yr un wrysgen, ond bydd rhai yn wyrddleision pan fyddo eraill yn addfed. Peidiwch gadael eraill i hadu i ddiffrwytho y tir. Na adewch byth ddau fath o'r un llysiau i hadu yn agos i'w gilydd, onide cymysgant, ac ni chewch oddiwrth y naill beth na'r llall. Nid gwiw gadael maip a bresych i hadu yn agos i'w gilydd—os gwnewch, bastardiaid fydd eich planhigion—ni fyddant na maip na bresych.

Gellir codi Rhuddugl trwy y gauaf, gyda gofal, mewn gwely poeth, neu le claiar, yr hyn a wna pobl gyfoethog.

Na rodder tail gwelltog ffres gyda hwy, onide tyfant yn ffewog a baglog, fel y gwna Moron. Y mae math newydd o Rhuddugl wedi ei ddwyn i'r wlad hon yn ddiweddar o Java. Gelwir y math yma, "*Rhaphanus Candatus.*" Nid eu gwreiddiau a fwyteir, ond y codau, a hyny pan fyddont tua haner llanw. Dywedir fod y goden o 20 i 30 modfedd o hyd. Y mae hadau y rhai yma yn go ddrud. Tebyg mai y rhuddugl crwnwreiddiog a elwir "*Turnip rooted*" yw y goreu at eu berwi. Cymerant o 20 munud i haner awr o ferwi brysiog. Gellir gadael megys modfedd o fôn rhwng y gwrysg, neu y dail, heb ei dori ymaith, fel y gwna rhai ag erfin ieuainc.

GARTREF EIN MEBYD.

Nid oes nemawr sy wedi bod hir amser yn absenol o ardal eu genedigaeth, na theimlant ryw bryd neu gilydd chwant i gael cipolwg arni unwaith cyn yr elont ac na fyddont mwy. Cariadon a chyfeillion yr hen amser—y wynebau anwyl a'r chwareuon adawodd ar ol y boreu cychwynodd ar ei daith i ymladd brwydr bywyd, yn drwm ei galon ac ysgafn ei logell—ydynt oll yn ffres ar y cof. Teimla chwant i gael ail-olwg unwaith eto ar y caeau y chwareuodd ynddynt ganwaith, yr heolydd, a'r nant fechan y bu ynddi yn ymolchi a physgotta. Gwyr am bob tro yn y ffordd, pob pwll yn yr afon, pob careg a llwyn, yn neillduol yr hen dderwen dan gysgod yr hon hir ddydd haf y tordenai y ci du a'r mochyn. Gwel o flaen llygad ei gof mor eglur a phe bai yno, y gaer, y bryniau, y creigiau, a'r cwmydd. O'r diwedd, penderfyna, y cyfleusdra cyntaf, i dafiu ymaith y gweddau am dipyn, doed a ddel, a rhoi tro i'r hen ardal. Gwna ei ymddangosiad yno ryw foreu—ei wyneb yn rhychiog a'i ben yn llwyd. Pawb yn llygadrythu ar y dyeithr, neb yn ei adnabod. Tafla olwg bruddaidd ar hen fwthyn ei dad, yr ardd, y waun gerllaw, y perthi, yr afon fechan y'ngodrau y cae, a'r goedwig lle y chwiliasai lawer gwaith am nyth y ceiliog du a'r fronfraith, ac am loches y lleidr hirfain. Edrycha am yr hen lwybrau. Tybia y cenfydd ol traed ei fam, er ei bod er ys llawer blwyddyn dan y glodsen. Yna cychwyn i'r pentref gerllaw, lle y bu gydâ'i gyfoedion yn ysgolia ac yn chwareu, heb ofid dan ei fron, hanner can' mlynedd yn ol. B'le mae'r tafarndy, ei gegin glyd, ei do gwellt, llun erchyll y llew du ar y wal, y plwmp pren, yr hen dderweni a orweddent ar y lôn? Oll wedi diflanu. A'r plaen wrth y clochdy, lle, pan yn hogyn difyr, y chwariasai *tennis* gydâ'i gyfoedion, sy'n awr yn orchuddiedig gan feddau a danadl poethion. Pa le mae'r clochydd pengoch a redai ymaith â'r bêl, y 'ffeiriad syw a'n troai, greaduriaid anhwaeth, allan o'r fynwent, y cobler meddw, y gwirion-ddyn cloff, y teiliwr ar y rhiw a'i ddoeth-eiriau, a chyfeilles y *tarts* a demtiasai lawer crwtyn penffol i ymadael â'i geiniog? Ie, pa le y maent? Nid oes eisiau ateb! O'i gydchwareuwyr a ysgwtiai ganwaith wrth y bêl ddu a'r bando, rhai ynt yn mhriddellau y dyffryn, rhai y'mhell o'r ardal, mewn ymdrech â threialon bywyd, a'r ychydig sy'n aros, ynt wedi cyfnewid fel yntau—y wynebpryd, unwaith yn wridgoch, yn awr yn llwyd, y gwallt a'r farf yn wyn, a'r cefn syth yn crymu dan bwys amser. Teimla brudd-der yn cripian dros ei ysbryd. Cilia i ryw gornel i wylo, yna ehed ymaith byth i ddychwelyd mwy!

Y STAD EGLWYS.

Mawr yr achwynir gan offeiriaid ac ategwyr yr Eglwys hon fod yr Anghydffurfwyr yn creu rhagfarn yn ei herbyn, a hyny yn anghyfiawn, trwy ddarbwyllo dynion i gredu mai o drethi y wlad mae'r arian yn

dod sy'n myned i'w chynal. Nid ydym yn credu fod neb o'r Anghydffurfwyr mor anwybodus a dyweyd y fath beth.

O ba le mae cyfoeth y Stâd Eglwys yn deilliaw? "Pan y rhanwyd esgobaethau yn blwyfi, gosodwyd degwm pob plwyf i'w weinidog ei hun, yn gyntaf trwy gytundeb cyffredin, neu drefniad Arglwydd y Manor, ac wedi hyny trwy gyfreithiau ysgrifenedig y tir. Y rhai hyn, sef Arglwyddi y Manor, fel yr oedd Crist'nogaeth yn ymdaenu, a ddechreuasant adeiladu eglwysi ar eu hetifeddiaethau eu hunain neu ar ddiffaethdiroedd *(wastes)*, er mwyn eu deiliaid mewn un neu ddwy arglwyddiaeth gyfagos, ac i gynal gwasanaeth rheolaidd ynddynt, a berasant i'w holl ddeiliaid i gyflwyno y degwm at gynhaliaeth eu gweinidog eu hunain, yn lle ei rhanu rwng offeiriaid yr esgobaeth yn unig; a'r rhan hwnw o'r tir, degwm yr hwn a gyflwynid i'r gweinidog, a ffurfiasai blwyf." *Blackstone*, cyf. ii., tud. 26.

Rhenid y degwm ar y cyntaf yn dair rhan. Un i gynal yr offeiriaid, y llall y tylodion, a'r trydydd i gynal adeilad yr eglwys ar ei draed. Ym mhen amser darfu i'r esgobion a'r offeiriaid lwyddo i berchenogi y degwm i gyd eu hunain, a gadael i'r tylodion a'r eglwys i gael eu cynal modd y gellid. Mae llawer o feddianau yr eglwys hefyd yn deilliaw oddiwrth diroedd a adawyd yn yr hen oesoedd at wasanaeth crefydd. Yr oedd yr offeiriaid Pabaidd yn dra llwyddianus ar y pen hwn, oblegid meddent afael ofnadwy ar gydwybod hen bechadur cyfoethog ac anwybodus o grefydd, ar ei wely angeu. Er mwyn gwaredu ei enaid o'r purdan rhoddai yn ei ewyllys dir i'r eglwys, ac efallai ei holl lestri arian i wasanaeth y mynachdy. Digon tebyg y buasai yr offeiriaid yn dyfod fel hyn i feddiant o'r holl wlad oni fuasai i un o frenhinoedd Lloegr i gyfryngu, a gwneud cyfraith *Mortmain*, hyny yw, cyfraith i luddias yr arfer. Ond ni adawn hyn. Weithiau pan yn adeiladu eglwys, rhoddai Arglwydd y Manor, nid yn unig ddegwm, ond tir hefyd i'w chynal—rhan o'r manor.

Gwel y darllenydd yn awr natur ddechreuol cyfoeth yr Eglwys Sefydledig. Nid oes braidd eisiau sylwi mai Pabyddion oedd pawb y pryd hwnw trwy yr holl wlad—dim Puritaniaid nac Anghydffurfwyr i ffino eneidiau offeiriaid. Dyma sefyllfa eglwysig y wlad hon hyd amser y Diwygiad yn nheyrnasiad Harri VIII., yr hwn wedi cwympo maes â'r Pab, a drodd yn Brotestant, gan ei wneuthur ei hun yn ben yr eglwys yn lle y Pab. Perodd i'r offeiriaid hefyd broffesu Protestaniaeth, neu ymadael â'u *livings*. Ysbeiliodd yr eglwys o lawer o'i chyfoeth, yn enwedig y mynachlogydd. Rhoddodd rai o honynt i'r gwyr mawr am gael eu caniatad i gymeryd meddiant ei hunan o'r rhai cyfoethocaf. Gwerthodd hefyd ran fawr o'r degymau. Er hyny, wedi yr holl ysbeilio, mae cyfoeth yr eglwys o hyd yn fawr—dim llai, medd rhai, nag ugain miliwn o bunnau yn y flwyddyn, ac wedi bod ym meddiant y Protestaniaid Esgobawl o amser Harri hyd yn awr. Chwi welwch mai eiddo y Pabyddion oedd ar y cyntaf.

Mae yn wir hefyd i lawer o gyfoeth gael ei roddi i'r Eglwys hon wedi amser y Diwygiad. Cyfoeth yw hwnw na fu erioed ym meddiant y Pabyddion; ond ychydig yw mewn cydmariaeth i gyfoeth yr hen amseroedd.

Yn awr, gofynwn beth sydd gan y Stâd, neu y Senedd fel ei chynrychiolydd a wnel â'r Eglwys Sefydledig? Atebwn, ei bod yn caniatau i'r Esgobwyr i ddal meddiant o gyfoeth yr hen Eglwys Babyddol. Rhodda i'r Esgobwyr orfaelaeth *(monopoly)* grefyddol. Nid yw y Stâd yn cydnabod un enwad crefyddol arall yn y wlad, ond yr enwad Esgobol yn unig. Gwna ei gweinidogion yn offeiriadaeth uchafol. Gweision crefyddol y Stâd yw offeiriaid yr eglwys hon, ac y mae yn peri iddynt gydnabod hyny. Y Stâd yw ei mheistr, ac fel caethion ni faeddant ddarllen un gwasanaeth, na phregethu un athrawiaeth na fyddo y Stâd yn gymeradwyo. Mae ei hoffeiriaid yn gwerthu eu rhyddid crefyddol i'r Stâd, ac am dano yn cael meddiant o'i chyfoeth eglwysig. Mewn gwirionedd maent mewn llyffetheiriau, er y credant hwy eu hunain eu bod yn rhydd.

Afraid fyddai sylwi fod cyfnewidiadau mawr wedi cymeryd lle yn nghyflwr crefyddol y wlad hon wedi amser Harri VIII. Nid yw'r Esgobwyr yn awr ond enwad crefyddol y'mhlith llawer o enwadau eraill, llawn mor gyfrifol a lluosog. Am hyny yr ydym ni, yr Anghydffurfwyr, yn dal ei fod yn awr yn ymddygiad anghyfiawn yn y Stâd i noddi un enwad mwy na'i gilydd, ac mai ei dyledswydd yw gosod pob enwad, mewn perthynas â hi, yn gyfartal. Yr ydym yn dal mai dyledswydd y Stâd yw gadael pob crefydd yn llonydd—pob enwad i drafod a chynal ei achos crefyddol ei hun. Yr ydym hefyd yn dal fod crefydd sefydledig yn y wlad hon yn bresenol yn gwneud mwy o niwed nag o dda, ac na fydd heddwch crefyddol yma mwy nes y dadgyssylltir yr Eglwys â'r wladwriaeth.

Nid oes dim gwir yn haeriad yr offeiriaid gyda golwg ar gyfoeth yr Eglwys, sef mai eu heiddo hwy, yr Episcopaliaid, ydyw, ac mai ysbeilio fyddai ei gymeryd oddiwrthynt. Eiddo y Pabyddion oedd ar y cyntaf fel y sylwasom. Dyfod i feddiant o hono wnaeth y perchenogwyr presenol trwy drais Harri. Mae y Senedd wedi dangos fwy nac unwaith fod ganddi hi hawl i wneud fel y myno âg ef. Dangosodd hyny yn ddiweddar mewn perthynas i gyfoeth eglwys yr Iwerddon.

Cwestiwn o amser yn unig yw dadgyssylltiad yr Eglwys hon â'r Stâd. Mae y wlad wedi gwneud ei mheddwl i fyny ys tro. Dysgwyl yr amser y mae yn awr. Yr un peth yw i'r offeiriaid wrthwynebu ysbryd yr oes, a phe ceisient luddias llanw y môr. Mae ei chwaer yn yr Iwerddon wedi ei dadgyssylltu yn barod, ac wrth bob arwyddion yn bresenol ni fydd ei thro hithau ddim yn hir.

"Beth wneir â'r cyfoeth?" medd llawer. Gwneled y Senedd ag ef fel y myno. Troed ef yn arian, a tafled ef i eigion yr *Atlantic*, os y meddylia mai hyny fydd oreu. Mae wedi bod yn faen melin ar wddf Crist'nogaeth yn ddigon hir.

DEDFRYD RYFEDDOL.—Dywed Lord Campbell iddo ef ei hunan glywed barnwr yn Stafford yn dedfrydu carcharor i farwolaeth am *forgery* yn y geiriau hyn:—"Ac yr wyf yn gobeithio y bydd i chwi, trwy haeddiant a chyfryngdod y Gwaredwr Bendigedig, i gael yn y byd arall drugaredd, yr hwn ni chaniata ein gofal dros gymeriad cylchrediad papyrawl y wlad, i chwi obeithio am dano yma."

HEN LYTHYRAU O GYMRU.*

LLYTHYR IX.

[At Mary Powell, Pencader, America.]

Bargod, Rhag. 2, 1724.

Anwyl Chwaer:—Daeth eich llythyr blasus i ben ei daith tua thair wythnos yn ol. Yr oedd yn llawenydd gan bawb o honom ddeall eich bod yn parhau i lwyddo yn y byd, a bod genych bedwar o blant yn fyw ac yn iach. Wrth ystyried fy mod yn fodryb i gynnifer, yr wyf yn dechreu meddwl fy mod yn myned yn hen. Yr ydym ni oll yn lled iach, ond nhad, nid yw efe yn hollol iach, ond y mae yn well nag y bu. Bu yn nwfr y môr yn Llangranog am dair wythnos yr haf diweddaf, a finnau gydag ef yn ei dendo. Yr oedd yn fwy dewisol gan mam i fyned gydag ef. Nid yw hi yn falio dim am fyned o gartref i un man ond i'r cwrdd. Fe wnaeth y dwfr hallt getyn mawr o ddaioni i nhad. Bu yn lled dda o hyny i Galan Gauaf, ond y mae wedi gwaelu ychydig ar ol hyny. Yr oeddwn wrth fy modd yn hyfryd ar lan y môr, a darllenais lawer iawn yno. Darllenais lyfr newydd o'r enw "Yr Oes Lyfr" trwyddo; a llyfr o'r enw "Hanes y Byd a'r Amseroedd." Un diwrnod fe aeth nhad a finnau, a brawd a chwaer o sir Gaer, a dau forwr, i maes mewn cwch, ac ar hyd y môr bob cam i Aberporth. Ar ol bwyta cinio yno dechreu'som y ffordd yn ol, ond pan oeddem yn nghyfer traeth Penbryn, dechreuodd y môr erwino, a buom yn meddwl y buasai yn raid i ni droi mewn yno, ond trwy lawer o drafferth daethom yn ol i Langranog. Yr oeddwn i wedi credu mai yn y gwaelod y buasem. Yr oedd y ddau forwr yn ofni yn dost, ac yn rhwyfo nes oedd y chwys yn eu golchi; ond y brawd a'r chwaer oedd weithaf o bawb. Yr oeddent bron â dyrysu yn deg. Y peth wyf wedi synu ato fwyaf yw fod nhad mor dawel. Pe buasai ar yr aelwyd gartref ni buasai yn fwy tawel. Gwnelai ei oreu i'n cadw yn dawel ac i galonogi y ddau forwr, ac yr oedd y rhai hyny yn dweyd ar ol d'od i dir eu bod yn meddwl na ddaethai y cwch i'r lan oni buasai fod nhad gyda ni. Cyn pen dwy awr wedi i ni dd'od yn ol yr oedd y 'storm yn ddychrynllyd tu hwnt i ddim a welais erioed, a'r tonau yn dyfod ar ol eu gilydd fel mynyddau mawrion, fel pe buasent yn meddwl ysgubo y cyfan o'u blaen am byth. Yr oedd yn drugaredd fawr i ni dd'od yn ol pan y daethom. Ond yr olwg fwyaf ofnadwy a welais yn fy mywyd oedd gweled llong fawr yn cael ei gyru o flaen y storom yn erbyn y creigiau. Yr oedd yno lawer ar ben y creigiau yn edrych arni, ond nis gallent roi un llaw o gymhorth i'r rhai oedd mewn perygl. Nid oedd nac angor na dim arall allasai ddal y llong yn ngwyneb ffyrnigrwydd y gwyntoedd. Ni anghofiaf byth yr olwg arni yn myned yn ysllon ar y creigiau, a'r dynion i gyd yn colli eu bywydau. Yr wyf yn meddwl weithiau y gallesid achub rhai o'r dynion pe buasai y rhai oedd ar y lan yn ymdrechu eu goreu; ond gallaswn feddwl wrth eu golwg nad oeddent am eu hachub. Yr oedd yno le arswydus. Gwnaeth pobl glan y môr gynauaf o'r llongddrylliad. Dywedir mai llong o Ffrainc ydoedd, a bod llawer o win, brandi, sidan, a phethau eraill ar ei bwrdd. Ni welais y fath feddwi erioed ag a fu yn Llangranog y dyddiau hyny wrth yfed y gwin a'r brandi ddaeth i'r lan. Collodd tri eu bywydau. Aeth un dros y graig yn ei feddwdod; gorweddodd y llall ar y traeth a daeth y llanw drosto; yr oedd y trydydd wedi yfed llawer o frandi, ac yn gorwedd ar lawr y ty fel pe fuasai yn ddarn o bren: aeth rhyw un â chânwyll yn agos i'w ben, cymerodd ei anadl dân yn fflam las ddysglaer, ac aeth i mewn iddo a

*Allan o "*Faner America.*"

llosgodd ef i farwolaeth yn y fan. Yr oedd rhai o wŷr Llangranog, pan allan ar y môr un noswaith, wedi gweled canwyllau cyrph y dynion hyny. Yr oeddent wedi gweled un ar y traeth, a'r llall yn rholio dros y graig i'r môr, yn y man lle cwympodd y dyn meddw; a dyna y rheswm fod y ddau forwr oedd gyda ni mor ofnus. Yr oeddent wedi clywed 'stori y canwyllau cyrff, ac yn ofni taw ein canwyllau ni oeddent. Lle annuwiol ofnadwy sydd ar hyd glan y môr. Ni feddyliais o'r blaen fod eglwys Pantycreuddyn a gweinidogaeth Mr. Lewis yn gymmaint o les yn ein cymydogaeth ni.

Y mae tro caled arall wedi cwrdd â theulu Blaencwm yn ddiweddar. Y mae Sali y ferch henaf wedi boddi ei hunan. Yr oedd son ar hyd y wlad er ys blynyddau ei bod hi yn ferch ddrwg. Bu ryw gyfreithiwr o Lanbedr yn tramwy ati weithiau, ond rhyw dafarnwr o Gastellnedd, a hwnw yn wr gwraig, oedd yn tramwy ati yn awr. Ymddengys ei bod yn ei gofal o hwnw, a bod hyny a chrogi ei thad wedi effeithio ar ei meddwl nes iddi foddi ei hun. Ar nos Sul y cyflawnodd hi y weithred. Yr oedd y dyn oedd yn cyrchu ati wedi bod heibio y prydnawn hwnw, a buont am ddwy awr gyda'u gilydd yn yr allt. Rhyw amser yn y nos aeth at ei chwaer, yr hon oedd wedi myned i'r gwely, a dywedodd wrthi, "Ffarwel i ti Pegi. Yr wyf fi'n myned. Weli di ddim o honof fi byth mwy." "Pa le'r wyt ti'n myned?" ebe hono, ond nid atebodd un gair, ond i bant â hi. Bu llawer o swn a holi yn ei chylch dydd Llun, heb fod dim gwell. Dydd Mawrth gollyngwyd y dwfr allan o'r llyn oedd gerllaw y ty, a dyna lle y cawd hi yn ngwaelod y llyn. Tua thair wythnos cyn hyny yr oedd John ei brawd yn ei feddwdod yn nhafarn Nani Danyrallt, wedi bod yn tyngu ym mhob enw, y buasai yn talu i Griffith yr Alltgoch am ddweyd celwydd ar ei dad; ac yr oedd hyny wedi peri mwy na mwy o ofid i deulu yr Alltgoch. Gwell i John edrych ati, neu fe fydd yn debyg o ddybenu ei fywyd yr un fath a'i dad a'i chwaer

Fe feddwodd Evan Bwlchgwyn yn ffair Llanbedr, fel y byddai yn arfer bob amser, ac yr oedd ryw swyddog a milwyr gydag ef yn ffusto am filwyr newyddion. Yn ei feddwdod fe gymerodd Evan swllt ganddynt, a'r canlyniad fu iddo orfod myned i bant at y milwyr. Yr oedd yn ddrwg iawn ganddo pan sobrodd ei fod wedi gwneyd hyny; ond yr oedd yn rhy ddiweddar y pryd hyny. Cynygiwyd ei ollwng yn rhydd am saith punt drosto, ond yr oedd ei dad yn dweyd nad oedd Evan yn werth talu saith punt drosto, ac mai gyda'r milwyr oedd y lle ffitiaf iddo fod. Yr oedd Evan wedi myned yn facbgen ofer a dibris iawn, ac y mae cywilydd ar fy nghalon i fy mod wedi bod mor ddwl a chadw cwmnïaeth ag ef. Ond yr oedd ef yn greadur mor llawen, a mor ddigrif, fel yr oedd yn anhawdd iawn i neb beidio ei hoffi, ac nid oeddwn innau yn ystyried cymmaint am bwys pethau yr amser hyny ag wyf yn awr.

Y mae William Rees, Penrhiw, yn aros gyda Mr. Fychan, Gelliaur, o hyd. Yr wyf wedi clywed ei fod yn caru merch i ryw fragwr mawr o Landeilo, merch dal yn gwisgo whitl goch a glas, a gŵn minco, ac yn mansial Seisneg main! Os yw hyny gwir, yr wyf yn methu deall beth sydd yn ei feddwl i garu rhyw hoeden felly. Yr oeddwn yn credu ei fod yn gallach na hyny.

Y mae rhyw fwci ofnadwy yn dychrynu dynion tua Bwlchygroes y misoedd diweddaf, a'r gred gyffredin ydyw mai ysbryd Magws gafodd ei lladd gan Evan Blaencwm ydyw. Cafodd amryw eu dychrynu ganddo yn ddiweddar. Y mae'r bobl oedd yn byw yn ty Magws wedi cael cymmaint o ofn, nes ydynt wedi symud oddiyno. Byddent yn clywed rhyw swn weithiau, tua haner nos neu un o'r gloch o'r boreu. Yr oedd y wraig yn dweyd ei bod ar ddihun un noswaith, a'i gwr yn cysgu yn ei hymyl, ac iddi weled yr holl gyflafan yn cymeryd lle ar ganol y llawr o flaen ei

llygaid. Wedi iddi weled Evan yn lladd Magws, yr oedd wedi cael cymmaint o fraw, nes iddi roddi 'sgrech ofnadwy, yr hon a ddihunodd ei gwr; ond erbyn hyny yr oedd pob peth wedi diflanu, a dim byd i'w weled yno. Yr oedd tri o fechgyn yn myned adref y ffordd hono o dy y crydd un noswaith, ac meddai un o honynt wrth y lleill, "Pa le mae'r hen Fagws heno? Mi garwn gael golwg arni os yw hi yma." Ond erbyn hyny dyna y tri yn gweled rhyw beth yn sefyll ar y ffordd o'r blaen, ac y maent hwy yn tystio ei fod yn union yr un fath â Magws. Nid oes eisiau i fi ddyweyd wrthych i'r tri gymeryd llwybr tarw i fyned adref y noswaith hono, ac am y cyntaf hefyd.

Y mae nhad a mam yn anfon eu cofio atoch yn wresog, ac y mae nhad yn dweyd mai hwn fe allai fydd y tro diweddaf iddo wneyd hyny. Ond y mae'n taer ddymuno arnoch, os felly bydd, am ei gwrdd yn y nef. Yr oedd yn dda gan lawer yma glywed fod crefydd yn fyw yn Pencader Newydd. Yr oedd Mr. Lewis y gweinidog yn ein ty ni yr wythnos ddiweddaf, ac yr oedd yn dywedyd ei fod yn bwriadu ysgrifenu llythyr atoch yn fuan, ac yr wyf yn sicr y cewch lawer o gynghorion gwerthfawr ganddo. Dyn Duw bob modfedd yw Mr. Lewis. Nid wyf yn meddwl fod y fath ddyn ag ef yn Nghymru, a'i gymeryd drwyddo draw.

Anfonwch yn ol yn fuan. Ydwyf, gyda llawer o serch atoch, eich cywir Chwaer, ANNA BEYNON.

Englynion ar briodas Mr. Thomas Thomas (y gwas) â Meistresian Anna Davies, y ddau o Dowlais, yn Eglwys blwyfol Merthyr Tydfil, Sir Forganwg.

Pur ydyw sel priodas,—yn Eden
Hon ydoedd yn addas;
Llenor coeth 'Tomos y Gwas'
Fu 'n arddel grym ei hurddas.

Un drygfyd na ddoed i drigfa—Thomas
A'i addasaf Anna;
A hefyd rhoed Jehofah,
I'w col blant duwiol a da.

Eich rhodiad fo 'n anrhydedd—tra 'n y byd
Troi y bo'ch mewn mawredd;
Ac yna mynedfa mewn hedd,
Fo genych i ogonedd.

Llety yr Awenydd. C. AYRON.

CYMMANFA FLYNYDDOL YR YSGOLION SABBOTHOL YN Y CRIBIN.

Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion yn y Cribin ar y 17eg o Fai. Daeth tyrfa luosog o bobl y'nghyd rhwng yr Ysgolion a'r rhai oedd wedi dyfod i wrando. Dechreuwyd gwasanaeth y boreu am ychydig wedi naw gan y Parch. W. Jenkins, gweinidog Penrhiw, ac adroddodd Ysgol y lle hanes y Prophwyd Jonah, a holwyd hi gan weinidog y lle. Ar ei hol adroddodd Ysgol Alltyblaca Matthew 5, a holwyd hi gan ei gweinidog yn yr awyr agored o herwydd fod y capel yn rhy lawn o bobl. Ar ei hol, yn yr un lle, adroddodd Ysgol y Ciliau Matthew 6, a holwyd hi gan y Parch. W. Rees, Rhydy gwin. Ar ol canu yn nhrefn yr undeb cerddorol (y drefn a gadwyd drwy

y dydd), terfynwyd gwaith y boreu trwy weddi gan y Parch. J. Davies, Alltyblaca.

Dechreuwyd yn y prydnawn am ddau. Adroddodd dwy ferch o ysgol Caeronen Diarhebion 22 yn gywir iawn, a gweddiodd y Parch. W. Rees, Rhydygwin, ac adroddodd ysgol Caeronen Matthew 21, a holwyd hi gan y Parch. R. C. Jones, Cribin. Ar ol canu, adroddodd ysgol Rhydygwin Efengyl Ioan 1, a holwyd hi gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid. Yna adroddodd ysgol Capel-y-groes y 5ed o Efengyl Ioan, a holwyd hi gan y Parch. T. Thomas. Yn olaf, ond nid y lleiaf, adroddodd ysgol Capelybryn Matthew 7, a holwyd hi gan y Parch. J. Davies, Alltyblacca. A therfynwyd trwy weddi gan y Parch. J. Davies. Cafwyd cyfarfod da iawn, yr oedd yr adrodd, yr atebion parod ac i'r pwrpas, yn nghyd a'r canu rhagorol, yn dangos fod llafur nid bychan wedi bod yn yr ysgolion. Bydded iddynt barhau yn eu diwydrwydd, yna byddant yn sicr o gynnyddu mewn rhif a defnyddioldeb. Pe buasai blaenoriaid ein cynulleidfaoedd yn y blynydd-oedd aeth heibio wedi talu mwy o sylw i'r ysgolion Sul, byddent yn fwy mewn rhifedi a dylanwad nac ydynt rai o honynt. Ofer yw i un gynnulleidfa ddysgwyl am gynnydd, yn enwedig un wan, heb ymdrech egniol dros yr ysgol a chydweithio a'r gweinidog. Terfynaf trwy ddiolch yn barchus i bobl y Cribin am eu caredigrwydd neillduol eleni fel arfer. Ofnaf fod gor-mod o'r baich yn cael ei daflu ar y Cribin, er nad ydynt hwy yn achwyn nac yn teimlo y baich yn rhy drwm. Ond dyna yw teimlad yr ysgrifenydd. Beth bynag am hyn, cynygiaf iddynt y tal arferol drosof fy hun a thros yr yr ysgolion. Diolch llydan llawn. UN OEDD YNO.

Bu Farw.

MARY REES.—Yn Aberdar, Ebrill 18, yn 55 oed, Mary Rees, gweddw Shon, mab Lewis Shon Rees. Claddwyd hi y Sadwrn canlynol, yn mynwent St. Ffagan, gyda'i gwr. Yn y ty, cyn cychwyn, gweinyddodd y Parch. R. J. Jones, M.A.

TOM PARKES WILLIAMS.—Dydd Sadwrn, Mai 4, 1872, yn 14 oed, o'r frech-wen, Tom Parkes Williams, trydydd mab T. D. Williams, *Stonecutter*, Trecynon, Aberdar, a Jennet Williams, ei wraig. Yr oedd yn fachgenyn tlws a gobeithiol, ac yn addawol o fod o wir ddefnydd yn y byd. Y Llun canlynol ymgynullodd amryw i'w hebrwng i "dy ei hir gartref" yn y Gladdfa Newydd (*Cemetery*), pryd y gwasanaethodd Mr. Jones, gweinidog yr Hendycwrdd ar yr achlysur; yna dodwyd ef i orwedd yn ei oer wely hyd farn y dydd mawr. EIDDIL CYNON.

JENNET ARNOLD.—Mai 5, 1872, yn 79 oed, Jennett Arnold, gweddw y diweddar David Arnold, Abernant, Aberdar. Dioddefodd gystudd am flynyddau, a cheffid hi bob amser yn amyneddgar a thawel trwy ei holl boenau. Y dydd Mawrth canlynol hebryngwyd hi tua'r Gladdfa Newydd, pryd y gweinyddodd Mr. Jones, gweinidog yr Hendycwrdd, ar yr achlysur, ac yna dodwyd hi i orphwys yn ei dystaw fedd hyd ganiad yr udgorn diweddaf.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

DANIEL JONES.—O'r darfodedigaeth ar yr 11eg Mai, ac yn 25 oed, yn y *Railway House*, Llanybyther, Daniel Jones. Claddwyd ef dydd Mercher canlynol yn Alltyblaca. Pregethodd yn y ty cyn cychwyn y Parchn. Mr. Evans, o Lanbedr, a W. Evans, Capel Seion, ac yn Alltyblaca gweinyddwyd gan y Parchn. R. C. Jones a J. Davies, gweinidog y lle, yr hwn a bregethodd oddiar Diar. iv. 8. Daeth tyrfa fawr y'nghyd i'r angladd, a llawer yn cwyno eu colled ar ol y marw fel ysgolfeistr da. Gadawodd i alaru ei ol wraig a dau blentyn, tad a mam, brodyr a chwiorydd. Nerth gaffont i ddal i fyny dan yr amgylchiad chwerw.

WILLIAM DAVIES.—Mai y 13eg, yn 22 oed, William Davies o Graigtrebanos o'r frech wên. Ni chafodd fyw ond ychydig ddyddiau wedi'r clefyd uchod ymaflyd

ynddo. Gadawodd wraig a phlentyn i alaru ar ei ol. Duw fyddo'n gymhorth iddynt yn eu hadfyd. Yr oedd yn ddyn o gymmeriad da, a rhodiad heddychol. Meddai ar ddealldwriaeth eang, cof bywiog, a thrysorai ar ei gof ddarnau da a meithion o'r YMOFYNYDD, a manau ereill i'r dyben i'w hadrodd mewn cyfarfodydd adroddiadol lle y cafwyd colled nid bychan ar ei ol. Yr oedd yn adroddwr doniol a hyawdl tuhwnt i'r cyffredin yn nghapel Gellionen. Y dydd canlynol, gan luaws o'i gydnabyddion, hebryngwyd ef i dy ei hir gartref wrth Gellionen, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, oddiwrth Ioan xiv. i. "Na thralloder eich calon yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau hefyd."

Trebanos. H. MORGAN.

DAVID DAVIES.—Ar y 13eg o'r mis diweddaf, yn nhy ei dad, ger Llanbedr-pont-Stephen, yn 25 oed o'r darfodedigaeth—clefyd mwyaf angeuol Cymru. Nid oes dim dadl, pe y gwnelid cyfrif, na cheid ei fod yn ysgubo ymaith fwy na phump o bob wyth o'r trigolion. Beth yw'r achos, mae yn anhawdd dyweyd. Dichon fod rhagor nag un. Tybia rhai mai hin laith y wlad yw'r achos, o herwydd ei hagosrwydd at y mor. Mae yn bosibl fod gan ymborth a bywfucheddiad y trigolion hefyd ryw gyfran yn yr achos. Gan nad beth, clefyd yw ag sy'n etifeddiol, ond weithiau yn neidio dros genhedlaeth neu ddwy, ac yna yn tori allan drachefn yn yr achau. Os y bydd yn y cyfansoddiad, er mewn cyflwr marwaidd, pethau dichwaeth iawn yn ein golwg ni a'i dihuna, megys aros mewn dillad gwlybion, pwl o anwyd, neu rhyw gyfnewidiad yn y dull o fywoliaeth. Unwaith y caffo y clefyd hwn ei osod yn deg mewn gweithrediad, anaml y llaesa ei afael nes gorphen ei waith.

Un o fyfyrwyr Undodaidd ein Coleg yn ddiweddar oedd Davies—wedi gorphen ei amser yr haf diweddaf. Yr oedd yn lled wanllyd ei iechyd gryn amser cyn ymadael a'r Coleg—weithiau yn well, weithiau yn waeth, fel y teimlir yn y clefyd hwn. Dyn ieuanc gobeithiol ydoedd. Pe y celsai fywyd buasai yn ddiau yn weithiwr da a ffyddlon yn yr eglwys Undodaidd, ond nid felly ydoedd i fod. Perchid ef yn fawr gan ei athrawon, yr eglwysi, a phawb a'i hadwaenai. Ac y mae'r ffaith ei fod yn ddyn ieuanc prydferth a chymhwys ei rodiad yn gysur mawr i'w berthynasau galarus. Gwelodd Duw yn dda ei symud y'moreu dydd ei fywyd. Y drefn oruwchaf sydd oreu, a'n dyledswydd ninau yw ufuddhau iddi yn ddirwgnach. Nid ydym yn hiraethu ar ol ein hanwyliaid fel rhai heb obaith cael ail gyfarfod a hwy eto, a hyny mewn bywyd perffeithiach na'r un presenol. Mae y sicrwydd hwn genym yn adgyfodiad Crist Iesu ein Harglwydd.

Claddwyd ef dydd Iau canlynol yn Capel-y-groes ger Llanwnen. Cyn cychwyn o'r ty, gweddiodd y Parch. R. C. Jones a phregethodd y Parch. W. Rees, oddiwrth Job xvii. 11. Yn y capel, darllenodd a gweddiodd y Parch. J. Davies, a thraddododd un o'i athrawon, D. L. Evans, Caerfyrddin, anerchiad byr ar lan y bedd.

Nis gallwn lai na sylwi, cyn diweddu, er efallai cael ein beio gan rai sy'n dewis dal at hen gwstwm gwlad, sef y byddai yn llawer o brydferthwch, os nid o rwyddineb mewn angladd, yn enwedig pan fyddo'r ffordd yn mhell a'r corph a'r coffin yn drwm, pe y darperid yn mhob ardal, yn lle elor, gerbyd bychan gweddaidd ac addas—cerbyd rywbeth cyffelyb i *hearse*, ac i'w dynu gan geffyl. Anhawdd gan lawer roddi heibio hen gwstwm, onite byddai y fath gerbyd mewn ardal i gario y marw yn ddefnyddiol iawn, ac yn llawer rhwyddach nac elor, yr hon debygem sy'n dolurio ysgwyddau y cryfaf. Trueni gwel'd menywod gweinion yn crymu dan elor drom, ac eto yn ceisio gwneud eu goreu. Mae y fath gerbyd mewn arferiad yn Lloegr ac nis gallwn ganfod un rheswm na ellid ei fabwysiadu y'Nghymru. Mae yn llawn bryd weithiau roddi heibio gwstwm mor anweddaidd a chario y marw ar *garllwyd*, oblegid beth arall mewn gwirionedd yw elor? Wedi ysgrifenu yr uchod clywsom i foneddwr nid nepell o Lanbedr, gynyg gwneuthur y fath gerbyd a rhoddi lle i'w gadw mewn man cyfleus i'r ardal. Gallesid meddwl fod y cynyg yn rhy dda i'w wrthod neu ei esgeuluso. Peth prydferth ddigon hefyd mewn angladd yw elorlen (*pall*) dros y coffin. Ni fyddai yn draul fawr i bob cynulleidfa sy'n berchen mynwent i gadw *pall* yn wastad at wasanaeth yr aelodau ac ereill fyddo yn dewis claddu yno.

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, HEOL-Y-BRENIN, CAERFYRDDIN.